

Cyngor Sir Caerfyrddin: Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae 2022 – 2025

Dogfen Gryno



TUDALEN CYNNWYS

Rhagair	03
Pam mae Chwarae'n Bwysig	04
Yr Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae	06
Methodoleg	07
Beth Ddywedodd Teuluoedd Wrthym	09
Beth Ddywedodd Rhanddeiliaid Wrthym	15
Mater A: Poblogaeth	16
Mater B: Diwallu Anghenion Amrywiol	19
Mater C: Y lle sydd ar gael i blant chwarae	24
Mater D: Darparu cyfleoedd dan oruchwyliaeth	27
Mater E: Taliadau ar gyfer darpariaeth chwarae	29
Mater F: Mynediad i le/darpariaeth	31
Mater G: Sicrhau a Datblygu'r gweithlu chwarae	34
Mater H: Ymgysylltu â'r gymuned a chymryd rhan ynddi	36
Mater I: Chwarae yn unol â phob polisi perthnasol ac agenda weithredu	38
Chwarae a'r Pandemig	40
Dadansoddiad Bylchau	42
Casgliad	46
Ffordd Ymlaen	47
Cyfeiriadau	48
Atodiad	49

Rhagair

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn cydnabod a dathlu hawl plentyn i chwarae a phwysigrwydd chwarae ym mywydau plant a phobl ifanc.

Rydym wedi ymrwymo i roi cyfleoedd i bob plentyn chwarae er mwyn helpu plant i gael hwyl a byw bywydau hapus, iachus. Trwy weithio mewn partneriaeth rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod bob plentyn a pherson ifanc sy'n byw yn Sir Gaerfyrddin yn gallu manteisio ar chwarae wedi'i oruchwylio ac fel arall sy'n eu herio, eu hysbrydoli, eu hannog i fod yn greadigol ac yn eu helpu i ddysgu a thyfu.

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn cydnabod fod chwarae yn rhan hanfodol o fywydau plant, pobl ifanc a theuluoedd. Mae chwarae o ansawdd yn golygu creu lleoedd lle y gall plant fod yn rhydd i ddewis beth maen nhw am ei wneud yn ogystal â sut a pham maen nhw am ei wneud. I ddyfynnu Chwarae Cymru: "mae chwarae yn adnodd anhygoel ar gyfer iechyd emosiynol plant¹" ac mae "chwarae yn yr awyr agored yn cyfrannu tuag at ystwythder, cydbwysedd, creadigrwydd, cydweithio cymdeithasol a chanolbwyntio."² Wrth inni symud heibio'r Pandemig mae'n bwysig ein bod yn cydnabod rôl chwarae yn adferiad a dyfodol plant.

Mae'r Awdurdod Lleol a'i bartneriaid, gan gynnwys Cyngorau Tref a Chymuned, Ysgolion, y Trydydd Sector, Lleoliadau Gofal Plant a Chwarae yn gwneud y penderfyniadau am sut, ble a phryd y gellir darparu cyfleoedd chwarae i blant. Mae gennym ddyletswydd i ystyried anghenion chwarae plant a phobl ifanc sy'n byw yn Sir Gaerfyrddin er mwyn gwneud yn siŵr y gallant fanteisio ar brofiadau, cyfleoedd a manteision hanfodol chwarae fydd yn cyfoethogi eu dysgu, iechyd, llesiant a sgiliau cymdeithasol.

Mae'r adroddiad hwn yn ddogfen hygyrch sy'n crynhoi canfyddiadau Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae 2022 ac mae'n amlinellu:

- Pam mae Chwarae'n Bwysig
- Gwybodaeth Ynghylch y Ddyletswydd Statudol
- Y ffordd y cynhaliwyd yr Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae
- Y Prif Ganfyddiadau
- Camau ar gyfer y Dyfodol

Pam mae Chwarae'n Bwysig

Mae rôl chwarae a'r cyfle i fwynhau cwmni ffrindiau yn sylfaenol a phellgyrhaeddol ym mywyd plentyn. "Mae chwarae yn allweddol i iechyd a llesiant corfforol, meddyliol, cymdeithasol ac emosiynol plant, ac o'r herwydd i blant a'u cymunedau yn gyffredinol."³

Pan ofynasom i blant, pobl ifanc a theuluoedd yn Sir Gaerfyrddin pam mae chwarae yn bwysig fe ddywedasant wrthym:

"Mae sesiynau gweithgareddau fel hyn yn dda gan y gallant roi cyfle i blant fwynhau pethau y mae rhai pobl yn eu hystyried yn 'norm'. Nid yw darllen storïau a chanu yn 'norm' i bob plentyn gartref, yn y ffordd y mae i blant eraill."

"Rwyf wrth fy modd yn chwarae gyda fy ffrindiau, mae'n fy ngwneud yn hapus."

"Mae cael hwyl gyda fy ffrindiau yn rhan bwysig iawn o fy mywyd, gan ein bod yn mwynhau ein hunain ac fe ddylen ni fod yn cael hwyl."

"Mae chwarae gyda grwpiau gwahanol o blant yn cadw eu meddyliau yn agored. Os ydyn nhw'n gweld plentyn arall mewn cadair olwyn ac maen nhw'n chwarae gyda nhw, gall eu helpu i ddysgu parchu pobl eraill."

"Mae chwarae yn bwysig gan fod plant wedi colli'r cyfleoedd hynny yn ystod COVID."

Mae chwarae'n cael effaith gadarnhaol ar iechyd corfforol a llesiant plant "mae'n amlwg fod chwarae yn cael effaith gadarnhaol ar nifer o ddeilliannau iechyd gan gynnwys cynyddu gweithgarwch corfforol, lleihau gordewdra ymhlith plant, gwella llesiant ymhlith plant a helpu i ddatblygu gwytnwch."

Pam mae Chwarae'n Bwysig

Dangosodd ymchwil gan Mind Cymru fod tri chwarter pobl ifanc (74% o'r bobl ifanc rhwng 13-24) yn dweud fod eu hiechyd meddwl wedi gwaethygu yn ystod cyfyngiadau'r cyfnod clo rhwng dechrau Ebrill a chanol Mai 2022.⁴ Mae chwarae yn helpu iechyd meddwl plant a phobl ifanc, mae'n "helpu plant i gydnabod a mynegi eu hemosiynau a datblygu perthnasoedd cadarnhaol gyda chyfoedion ac aelodau'r teulu. Mae'n eu helpu i ddelio â gorbryder a diflastod ac adeiladu eu gallu i ganolbwyntio a rhoi sylw i'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw."⁵ Dangoswyd hefyd fod chwarae yn helpu plant a phobl ifanc i ddatblygu eu hymdeimlad o'r hunan, gwneud ffrindiau ac adeiladu sgiliau cymdeithasol.

Mae plant yn dysgu trwy chwarae, maen nhw'n datblygu sgiliau hanfodol trwy chwarae "does dim ots ble maen nhw'n byw, na pha fath o adnoddau sydd ganddyn nhw, mae gan blant yr un reddf naturiol i archwilio'r byd. Mae'r sgiliau maen nhw'n eu dysgu trwy chwarae, fel creadigrwydd ac ystwythder meddwl, yn eu paratoi ar gyfer caru dysgu gydol oes."⁶ Mae tystiolaeth yn dangos fod rôl chwarae mewn dysgu yn gyffredinol, casglodd adroddiad gan Lego Foundation, Learning Through Play: Increasing, Impact, Reducing Inequality dystiolaeth o raglenni plentyndod cynnar mewn 18 gwlad ac mae'n dangos "pa mor bwysig yw presenoldeb chwarae yn yr ymdrechion i leihau anghydraddoldeb a chau bylchau cyflawniad ymhlith plant o gefndiroedd cymdeithasol-economaidd gwahanol."⁷

Mae gan chwarae effeithiau pellgyrhaeddol i blant, eu teuluoedd, a'u cymunedau. Er enghraifft, "dangosodd astudiaethau ledled y byd fod buddsoddi yn natblygiad plentyndod cynnar yn lleihau ffigyrau troseddu ac yn cynyddu potensial ennill cyflogau i'r dyfodol, sydd hefyd yn cynyddu incwm llywodraethau.

Dywed UNICEF fod efelychiad ar gynyddu lefelau ymrestru cyn-ysgol mewn 73 gwlad wedi dangos manteision o ran codi cyflogau i'r dyfodol o US\$ 6.4 i US\$ 17.6 am bob doler a fuddsoddwyd. Dangosodd yr efelychiad fanteision hirdymor posib yn amrywio o US\$ 11 i US\$ 34 biliwn."⁸

Mae'n bwysig cydnabod fod y pandemig wedi effeithio ar berthnasoedd plant a phobl ifanc i chwarae "mewn ffyrdd sy'n ddwys a braidd yn wrthddywediadol. Ar un lefel, roedd pryder cyffredinol am blant a phobl ifanc yn colli llencyndod, colli addysg ac effeithiau creithiol posib o ran addysg a gwaith i'r dyfodol. Fodd bynnag, ar yr un pryd roedd pobl ifanc yn sôn eu bod wedi gwneud newidiadau cadarnhaol annisgwyl i'w bywydau. Yn wir, defnyddiodd llawer yr amser a roddwyd iddynt gan y pandemig yn gyfle i fuddsoddi yn eu hunanofal, llesiant, a'u perthnasoedd."⁹ Daeth y Fforwm Diogelwch Chwarae (sy'n cynnwys Chwarae Cymru, Play England, Play Scotland a Play Northern Ireland) i'r casgliad "nad oedd yn ymddangos y rhoddwyd llawer o ystyriaeth i les plant ac eithrio'r effaith ar addysg. Fel sydd wedi digwydd sawl gwaith, cafodd chwarae ei anghofio neu ei ddiystyru, ond mae digon o dystiolaeth ei fod yn chwarae rhan bwysig yn natblygiad plant."¹⁰

Ni ddylem anghofio'r ffaith fod chwarae a threulio amser gyda ffrindiau yn hwyl. Fod "chwarae yn golygu plant yn gwneud fel y mynnant yn eu hamser eu hunain ac yn eu ffordd eu hunain. Mae'n cynnwys nodweddion allweddol hwyl, ansicrwydd, her, hyblygrwydd ac anghynhyrchiant."¹¹

Yr Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae

Mae gan Lywodraeth Cymru ddyhead i greu Cymru lle mae cyfle i chwarae, ac sy'n darparu cyfleoedd ardderchog i'n plant chwarae. Er mwyn i'r dyhead hwn gael ei wireddu, mae angen cydweithio rhwng Awdurdodau Lleol a nifer o bartneriaid a rhanddeiliaid. Mae Mesur Plant a Theuluoedd Llywodraeth Cymru yn cynnwys adran ar "Cyfleoedd Chwarae", sef y sail i'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae. Rhaid i Awdurdodau Lleol, gan gynnwys Cyngor Sir Caerfyrddin, gyflawni'r camau canlynol:

1. Rhaid i awdurdod lleol asesu digonolrwydd cyfleoedd chwarae i blant a phobl ifanc yn ei ardal yn unol â'r rheoliadau.
2. Sicrhau cyfleoedd chwarae digonol i blant a phobl ifanc, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol.
3. Cyhoeddi gwybodaeth am gyfleoedd chwarae i blant a phobl ifanc yn ei ardal.
4. Diweddarau'r wybodaeth a gyhoeddir.

Wrth gyflawni'r dyletswyddau hyn, rhaid i Awdurdod Lleol ystyried anghenion:

- a. Plant a phobl ifanc sy'n anabl
- b. Plant a phobl ifanc o wahanol oedrannau

Er mwyn llunio a chyfrannu at yr asesiad mae'n rhaid ymgynghori â:

- Phlant,
- Rhieni,
- Unigolion a sefydliadau a chanddynt ddiddordeb mewn chwarae, y mae'r Awdurdod Lleol yn eu hystyried yn briodol.

Caiff Asesiadau o Ddigonolrwydd Cyfleoedd

Chwarae eu cynnal bob 3 blynedd, a chyflwynodd Cyngor Sir Caerfyrddin eu Hasesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae cyntaf i Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2013 a chyflwynwyd asesiadau dilynol ym Mawrth 2016 a 2019. Bydd yr asesiad hwn ar gyfer y cyfnod rhwng 2022 – 2025. Er mwyn annog cysondeb ar draws Cymru cynhyrchwyd pecyn gwaith, ynghyd â "Cymru – Gwlad lle mae cyfle i chwarae: Cyfarwyddyd Statudol." Mae'r dogfennau hyn yn amlinellu sut ddylai Awdurdodau Lleol gynnal yr asesiadau a'r 9 Mater y mae angen eu hystyried:

- **Mater A: Poblogaeth**
- **Mater B: Diwallu Anghenion Amrywiol**
- **Mater C: Y lle sydd ar gael i blant chwarae**
- **Mater D: Darparu cyfleoedd dan oruchwyliaeth**
- **Mater E: Taliadau ar gyfer darpariaeth chwarae**
- **Mater F: Mynediad i le/darpariaeth**
- **Mater G: Sicrhau a Datblygu'r gweithlu chwarae**
- **Mater H: Ymgysylltu â'r gymuned a chymryd rhan ynddi**
- **Mater I: Chwarae yn unol â phob polisi perthnasol ac agenda weithredu**

Methodoleg

Fel yr amlinellir yn adran 2.0 ceir fframwaith statudol clir am sut i gynnal yr asesiad. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn amlinellu'r ffordd yr aethom ati i gynnal yr asesiad hwn.

Asesiad Sylfaenol: Yr asesiad sylfaenol yw man cychwyn yr Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae ac mae'n allweddol i sicrhau bod y broses yn seiliedig ar ddealltwriaeth gynhwysfawr o'r ddarpariaeth bresennol a'r angen ar hyn o bryd ac i'r dyfodol. Cychwynnodd y broses hon gydag adolygiad o'r Asesiadau o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae blaenorol er mwyn adnabod bylchau yn y data a datblygu cynllun ar gyfer casglu'r data angenrheidiol o nifer o ffynonellau, coladu'r data hwn a'r broses adolygu. Hefyd, defnyddiwyd proses yr adolygiad sylfaenol i ymchwilio ac adnabod yr holl bolisiâu a strategaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol perthnasol fydd yn sail i'r adolygiad polisi i gefnogi Mater I: Chwarae yn unol â phob polisi perthnasol ac agenda weithredu

Ymgysylltu â Rhanddeiliaid: Cafwydrhaglen ymgysylltu â rhanddeiliaid, gan gynnwys gweithdai, cyfarfodydd a chyfweliadau trwy gydol cyfnod yr asesiad. Roedd hyn yn cefnogi proses gydweithiol a rhannu gwybodaeth a syniadau. Cychwynnodd y cam hwn gyda gweithdy a ddaeth â'r holl randdeiliaid at ei gilydd i lansio'r broses a chydweithio ar weledigaeth gyffredin ar gyfer chwarae a darparu cyfleoedd chwarae yn Sir Gaerfyrddin.

Ymgysylltu â'r Gymuned: Darparasom raglen ymgysylltu cymunedol a sicrhodd bod llais plant, pobl ifanc, rhieni a gofalfwyr a'r gymuned yn cael eu gwreiddio yn yr Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a'r cynllun gweithredu ac yn dylanwadu arnynt. Defnyddiodd y rhaglen hon nifer o ddulliau

gwahanol gan gynnwys grwpiau trafod, digwyddiadau cymunedol, holiaduron, gweithgareddau ar-lein a chyfryngau cymdeithasol.

Asesiad o Anghenion: Trwy gynnal proses o adnabod ac archwilio'r holl ddarpariaeth chwarae (gan gynnwys mannau dan do ac awyr agored), cafwyd gwerthusiad o'r ddarpariaeth o ran niferoedd, hygyrchedd, ansawdd a gwerth. Defnyddiwyd y broses hon, ynghyd â'r data poblogaeth, i gynnal asesiad o anghenion er mwyn canfod y gofynion ar gyfer chwarae yn yr ardal a diffinio gweledigaeth a meini prawf ar gyfer chwarae yn Sir Gaerfyrddin fydd yn sail i'r Asesiad Chwarae a'r Argymhellion.

Dadansoddiad Bylchau: Gan ddefnyddio'r wybodaeth a gasglwyd trwy'r asesiad, cynhaliwyd dadansoddiad bylchau er mwyn edrych ar nifer o fylchau gan gynnwys:

- Bylchau Daearyddol – Pan mae prinder darpariaeth gyffredinol mewn ardal ddaearyddol arbennig
- Bylchau Anghenion Amrywiol – Pan mae prinder lleoedd addas ar gyfer plant anabl, neu blant ag anghenion neu ofynion penodol eraill, gan gynnwys rhai o grwpiau ffydd neu gymunedau
- Bylchau Mynediad – Pan mae prinder darpariaeth chwarae hygyrch
- Bylchau Oed - Pan mae prinder darpariaeth chwarae sy'n addas ar gyfer anghenion a gofynion grŵp oed penodol (er enghraifft, plant oed ysgol i fyny at 18 oed, os ydynt yn anabl)
- Bylchau Math – Pan mae prinder y math o chwarae y gall fod galw amdano

Methodoleg

- Bylchau yn y Gweithlu – Pan mae bylchau/prinderau yn y gweithlu
- Bylchau Polisi – Pa bolisiâu i gefnogi a datblygu chwarae sydd ar goll
- Bwlch COVID-19 – Bylchau yn y ddarpariaeth yn gysylltiedig â'r pandemig.

Hefyd, cynaliasom ddadansoddiad SOAR (cryfderau, cyfleoedd, dyheadau a chanlyniadau) o bob Mater (ATODIAD D). Mae hyn wedi'n galluogi i archwilio sefyllfa bresennol (cryfderau a dyheadau) pob Mater er mwyn adnabod bylchau yn y ddarpariaeth, yn ogystal â chynllunio ar gyfer y dyfodol (dyheadau a chanlyniadau) er mwyn cyfrannu at y cynllun gweithredu.

Ceir tri dadansoddiad SOAR yn seiliedig ar Faterion yn ATODIAD F.

Gweithdy Cynllun Gweithredu: Bydd llwyddiant proses yr Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a gweithredu a chyflawni'r Cynllun Gweithredu yn dibynnu ar nifer o bartneriaid a rhanddeiliaid yn gweithio gyda'i gilydd. Rhannodd gweithdy'r cynllun gweithredu ganlyniadau proses yr Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a'r dadansoddiad bylchau a'i dilynodd, gan adnabod y camau allweddol i'r dyfodol.

Beth Ddywedodd Teuluoedd Wrthym

Rhwng Hydref 2021 a Chwefror 2022 llanwodd 1,028 o unigolion a sefydliadau un o'n Harolygon Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae. Hefyd, buom yn siarad â 104 o bobl leol, gan gynnwys plant, pobl ifanc, rhieni a gofalwyr trwy raglen o grwpiau trafod a mynychu digwyddiadau a gweithgareddau gan gynnwys cynlluniau chwarae, grwpiau chwarae a chlybiau ieuencid.

29%

Dydyn nhw ddim yn cael chwarae lle maen nhw eisiau oherwydd...

—
'dyw e ddim yn ddiogel'

—
'dyw fy rhiant/gofalydd ddim yn gadael imi'



AROLWG PLANT

Llanwodd 294 o blant ysgol gynradd ein harolwg ac fe ddywedson nhw wrthym...

45%

—
Maen nhw'n dweud eu bod yn teimlo'n ddiogel wrth chwarae a threulio amser gyda ffrindiau

Dywedodd plant a lanwodd yr arolwg:

60%

Chwarae tu allan/treulio amser gyda ffrindiau bron bob dydd

59%

Maen nhw'n cael digon o amser i chwarae

20%

Maen nhw'n cael llwyth o amser i chwarae

Lle mae plant yn chwarae:

72%

Eu tŷ eu hunain neu dŷ ffrind

46%

Lleoedd chwarae yn cynnwys siglenni a/neu offer chwarae

28%

Eu gardd neu ardd ffrind

Dywed 49%

o blant eu bod yn cael chwarae tu allan ar eu pen eu hunain

Dywedodd 81%

eu bod yn cael chwarae tu allan gyda'u ffrindiau

Mae 60%

o blant yn dibynnu ar oedolyn â char i fynd â nhw i chwarae

81%

eu bod yn dibynnu ar oedolyn â char i fynd â nhw i'r ysgol

Sut mae oedolion pan rydych chi'n chwarae neu'n treulio amser gyda ffrindiau?

“
58%

Mae'r rhan fwyaf o oedolion yn wych ac yn hapus â phlant yn chwarae tu allan”



“
3%

Mae'r rhan fwyaf o oedolion yn flin ac yn casáu fod plant yn chwarae tu allan”



46%

fod cyfleoedd chwarae yn eu cymuned yn 'wych ac na ellid eu gwneud yn llawer gwell'



4%

fod cyfleoedd chwarae yn eu cymuned yn 'wael iawn'

Mae 97%

o blant sy'n mynd i'r ysgol yn chwarae ar fuarth yr ysgol


Beth mae plant yn ddweud sy'n eu rhwystro rhag treulio amser gyda'u ffrindiau yn yr ysgol:




84%
Tywydd gwael



31%
Gormod o waith ysgol



Dywedodd 23% o ymatebwyr nad oedd COVID-19 wedi effeithio ar eu gallu i chwarae a threulio amser gyda ffrindiau



Dywedodd 35% 'y cafodd beth effaith'

21%
Dyweddod...



na allaf neu mai anaml rwyf yn gwneud y pethau rwyn eu hoffi'



AROLWG POBL IFANC

Llanwodd 270 o blant ysgol uwchradd ein harolwg ac fe ddywedson nhw wrthym...

Mae 84%

o bobl ifanc yn treulio amser gyda ffrindiau ar fuarth yr ysgol.

Mae'r ymatebion yn dangos fod faint o amser mae plant yn ei dreulio yn chwarae neu gyda ffrindiau yn lleihau gydag amser.



Mae 44%

o bobl ifanc yn treulio amser gyda ffrindiau bron bob dydd o gymharu â 60% o blant

Y gweithgareddau mwyaf poblogaidd ar gyfer y grŵp oed hwn:

64%



Bod gydag a siarad gyda ffrindiau

38%

Mynd i'r sinema



34%

Crwydro'r awyr agored



Sut mae'r grŵp hwn yn teimlo wrth dreulio amser gyda ffrindiau:

86%
Hapus

43%
Cyffrous

42%
Am ddim

40%
Gweithgar

Ble mae'r grŵp hwn yn treulio'u hamser:

37%
Cae lleol



29%
Eu cartref



29%
Y traeth



33%
Rhywle arall

Beth mae pobl ifanc yn ddweud sy'n eu hatal rhag treulio amser gyda'u ffrindiau yn yr ysgol:



59%
Tywydd gwael



32%
Gormod o waith ysgol



22%
Dim unman i chwarae/treulio amser

Dyweddod 57% o bobl ifanc nad oes unrhyw leoedd maen nhw angen neu eisiau treulio amser gyda ffrindiau yn eu cymuned.

Y tair ffactor fwyaf arwyddocaol sy'n eu hatal rhag treulio amser gyda ffrindiau:

38%
Dim byd i'w wneud yno

38%
Pandemig COVID-19

38%
Mae'n rhy dywyll




Dyweddod 54%

o bobl ifanc fod COVID-19 wedi effeithio sut maen nhw'n chwarae ac yn treulio'u hamser.


Mae 62% eisiau treulio mwy o amser gyda ffrindiau, i wneud hynny mae pobl ifanc eisiau 'trafnidiaeth i'w helpu i gyrraedd yno' (59%), 'gofyn i berchnogion cŵn godi baw eu cŵn' (22%) a 'helpu fy rhieni i ddeall ei bod yn iawn i dreulio amser gyda'u ffrindiau.'

AROLWG CHWARAE TEULUOEDD

Llanwodd 423 o rieni a gofalwyr ein harolwg ac fe ddywedson nhw wrthym...



o rieni a gofalwyr am i'w plant chwarae a threulio mwy o amser gyda'u ffrindiau



o rieni a gofalwyr fod eu plant yn cael mwy na digon o amser chwarae

Dywedodd rhieni a gofalwyr wrthym fod eu teuluoedd yn chwarae yn...



68%
maes chwarae



57%
gardd eu/frind



54%
tŷ eu/frind

Dywedodd **34%**

wrthym nad yw eu plant yn cael mynd ymhell o'u cartref

Dywedodd **34%**

y gall eu plant chwarae yn 'ein gardd neu o fewn golwg i'n cartref'

Roedd **36%**

yn cyfaddef eu bod yn poeni'n aml ac yn ei chael yn anodd gadael i'w plant chwarae tu allan

Wrth feddwl am chwarae mae rhieni a gofalwyr yn pryderu am:

49% Traffig


35% Sbwriel/
baw cŵn

29% Oedolion


28% Y pandemig

Mae **56%**

yn meddwl nad oes digon o leoedd i blant a phobl ifanc chwarae a threulio amser gyda ffrindiau yn y gymuned



fod eu plant a'u teuluoedd yn chwarae llai



yn rhoi mwy o bwys ar chwarae oherwydd y pandemig

AROLWG CYNGHORAU




Llanwodd 15 Cyngor Tref a Chymuned ein harolwg ac fe ddywedson nhw wrthym...



Y ddarpariaeth chwarae fwyaf poblogaidd sydd ar gael yn y gymuned:

Mae 50% yn amcangyfrif fod y defnydd o fannau awyr agored wedi cynyddu oherwydd y pandemig

Cafwyd gostyngiad o 27% yn y defnydd o le dan do




Y tri rhwystr mwyaf i chwarae:



62%
Traffig



54%
Sbwriel/
baw cŵn



32%
Y
pandemig

Mae Cyngorau Tref a Chymuned yn credu mai'r bwloch mwyaf yn y ddarpariaeth yn y gymuned yw:


80%
Mannau cynhwysol / hamdden ar gyfer plant ag anabledau a / neu anghenion ychwanegol

60% Darpariaeth chwarae ar gyfer plant cyn-ysgol


90% Lleoedd i bobl ifanc dreulio amser

Mae
87%

o Gyngorau Tref a Chymuned y byddant yn disgrifio darparu cyfleusterau chwarae ar gyfer plant a phobl ifanc yn flaenoriaeth.



eu bod yn ymgysylltu â phlant, pobl ifanc a theuluoedd lleol wrth wneud penderfyniadau am chwarae.



eu bod wrthi'n cynllunio prosiectau chwarae ar hyn o bryd.

AROLWG CHWARAE YSGOLION


Cafodd yr arolwg ysgol ei lenwi gan 27 ysgol gynradd ac 1 ysgol uwchradd ac fe ddywedson nhw wrthym...



Dyweddodd pob ysgol a gymerodd ran yn yr ymgysylltu fod ganddynt leoedd ar gael ar gyfer chwarae; y mathau mwyaf poblogaidd o leoedd ar gyfer chwarae mewn ysgolion yw:


100%

Arwynebau caled




46%

Mannau Gwyrdd



43%

Offer dringo



Dyweddodd
55%

o ysgolion fod ganddynt leoedd ar eu campws y gellid eu defnyddio ar gyfer chwarae ond nad ydynt yn addas oherwydd rhesymau fel; Draeniad gwael, ceudyllau a/neu dim digon o staff i oruchwylio ardal fwy.

Mae
69%

o ysgolion yn hyrwyddo chwarae yn y mannau sydd ar gael iddyn nhw

28%

Cynllun hirdymor ar gyfer diogelu a datblygu chwarae

Mae **24%**

o ysgolion gynlluniau ar gyfer cael cymhwyster chwarae ar gyfer aelod/au o'u tîm

Mae gan
3%

o ysgolion aelod o staff a chanddynt gymhwyster chwarae

Mae **14%** wedi penodi aelod o staff i arwain ar chwarae

7% Polisi chwarae

Dyweddodd pob ysgol a gymerodd ran yn yr arolwg eu bod,

“ Yn cynnal gwersi yn yr awyr agored gan gynnwys ystafelloedd dosbarth awyr agored, buarthau ysgol a mannau coedwig.”

Nid yw'r un o'r ysgolion a gymerodd ran yn yr arolwg yn gadael i blant a phobl ifanc ddefnyddio tir yr ysgol wedi oriau ysgol. Y prif rwystrau yw iechyd a diogelwch a risg difrod i gyfleusterau. Dywedodd un ysgol fod y rhan fwyaf o'u disgyblion yn byw'n rhy bell i ffwrdd i ddefnyddio'r ysgol.

Mae dros
50%

o ysgolion yn caniatáu mynediad wedi'i oruchwylio ar gyfer clybiau a grwpiau.

Beth Ddywedodd Rhanddeiliaid Wrthym

Mae nifer fawr o bartneriaid a rhanddeiliaid sy'n effeithio ar ac yn cael eu heffeithio gan chwarae. Cawsom drafodaethau gyda'r partneriaid hyn trwy weithdai, cyfarfodydd ac ymweliadau safle. Roedd y trafodaethau'n seiliedig ar y 9 Mater sy'n ffurfio'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae. Ymhlith y themâu a ddaeth allan o'r trafodaethau hyn roedd:

- **Cyllid:** Mae pryder ymhlith rhanddeiliaid am y trefniadau presennol ar gyfer ariannu chwarae, dan arweiniad Llywodraeth Cymru. Mae cyllid tymor byr a chyfnodau amser cyfyngedig yn golygu fod buddsoddi mewn chwarae yn tueddu bod yn adweithiol yn hytrach na strategol. Mae gofid hefyd ymhlith rhanddeiliaid, yn enwedig felly Gynghorau Tref a Chymuned, ynghylch cost cynnal buddsoddiadau cyfalaf.
- **Pryderon am Ddiogelwch:** Mae rhanddeiliaid wedi lleisio pryderon am lefelau ymddygiad gwrthgymdeithasol gan gynnwys yfed a chymryd cyffuriau yn digwydd mewn lleoedd y mae plant yn chwarae ynddynt, ac y mae pobl ifanc yn cyfarfod ynddynt.
- **Ardaloedd a Chymunedau sy'n Brin o Ddarpariaeth:** Cydnabyddiaeth fod yna ardaloedd gwledig sy'n brin o ddarpariaeth a bod angen gwneud mwy o waith i annog grwpiau anaml y'u clywir ac anodd eu cyrraedd i gymryd rhan mewn chwarae.
- **Ymgysylltu â Chymunedau a'u Grymuso:** Mae partneriaid yn credu mewn dyhead i ymgysylltu â phobl leol a'u grymuso i lywio penderfyniadau am chwarae ac efallai i ddarparu chwarae i lenwi bylchau yn eu cymunedau.
- **Denu a Chadw Staff:** Soniodd partneriaid mewn lleoliadau gan gynnwys gofal plant, gwaith ieuencid a phrosiectau chwarae am heriau denu a chadw staff. Mae'r rhwystrau'n cynnwys cyflogau isel, diffyg sicrwydd swyddi yn deillio o gyllid tymor byr a heriau dod o hyd i staff dwyieithog. Dywedodd pobl sy'n gweithio yn y sector eu bod yn teimlo nad ydynt yn cael eu gwerthfawrogi ddigon a'u bod yn rhwystredig.

Mater A: Poblogaeth

6.1 Mwy am Fater A: Poblogaeth

Mae proses yr Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae yn galw am ddealltwriaeth o'r data sydd ar gael er mwyn cyfrannu at benderfyniadau. Mae'n gofyn inni sicrhau bod gennym wybodaeth am nifer y plant mewn categorïau gwahanol all effeithio eu gofynion chwarae, gan gynnwys anfantais ac amddifadedd.

6.2 Beth Ddarganfyddom

Gellir defnyddio data o bob math i'n helpu i ddeall y galw am ddarpariaeth chwarae ar draws y Sir. Ar lefel sylfaenol ceir gwybodaeth am boblogaeth, sy'n helpu deall faint o blant sy'n byw yn Sir Gaerfyrddin.

Tabl 1: Amcangyfrifon Poblogaeth Canol 2020 yn ôl Grŵp Oed¹²

Grŵp	Nifer y Plant
3 ac iau	7,233
4 - 7	8,147
8 - 12	11,241
13- 15	6,535
16 - 17	4,107
CYFANSWM	37,263

Gellir rhannu amcangyfrifon poblogaeth yn ardaloedd ward ac ardaloedd cynnyrch ehangach haen is (LSOA) er mwyn deall ac archwilio ymhle mae pobl ifanc yn byw yn Sir Gaerfyrddin, a cheir enghraifft o sut ellir mapio data yn ffigur 1 (ATODIAD A).

Mae cyfrifiad 2021 yn ffynhonnell ddata werthfawr all ein helpu i ddeall mwy am y plant a theuluoedd yn Sir Gaerfyrddin gan gynnwys:

- Gwneuthuriad teuluoedd yn Sir Gaerfyrddin a'r ardaloedd y mae teuluoedd yn byw ynddynt.
- Y mathau o gartrefi y mae teuluoedd yn byw ynddynt.
- Faint o deuluoedd sydd â defnydd o gar neu gerbyd.
- Materion ac anghenion iechyd teuluoedd.
- Lefelau cyflogaeth.
- Data demograffig all gyfrannu at brosesau gwneud penderfyniadau gan gynnwys ethnigrwydd.
- Yr iaith y mae plant a theuluoedd yn ei siarad.

Mae setiau eraill o ddata all ein helpu i ddeall mwy am deuluoedd yn Sir Gaerfyrddin yn cynnwys:

Matter A: Population

Addysg

Mae'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (PLASC) gaiff ei lenwi bob blwyddyn yn casglu gwybodaeth am bob myfyriwr sydd wedi ymrestru mewn ysgolion ledled Sir Gaerfyrddin. Mae'n casglu data all ein helpu i ddeall y materion a'r heriau sy'n wynebu teuluoedd gan gynnwys y niferoedd sy'n cael prydau ysgol am ddim, disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, nifer y disgyblion a addysgir yn y Gymraeg a / neu sy'n siarad Cymraeg a nifer y disgyblion nad y Gymraeg na'r Saesneg yw eu mamiaith.

Ceir enghraifft o sut allwn ddefnyddio data PLASC yn ffigur 2 (ATODIAD B), sy'n dangos y niferoedd sy'n cael prydau ysgol am ddim (FSM) mewn ysgolion ledled Sir Gaerfyrddin. Gall hyn ein helpu i ddeall lle mae plant o deuluoedd difreintiedig yn cael eu haddysgu ac efallai'n manteisio ar ddarpariaeth chwarae. Gall ein helpu hefyd i ystyried yr angen am ddarpariaeth fel Clybiau Brechwast a Chlybiau Ar Ôl Ysgol. Er y bydd gan bob plentyn yng Nghymru yr hawl i gael prydau ysgol am ddim, gan gychwyn gyda'r Cyfnod Sylfaen ym mis Medi 2022, mae PLASC yn cynnwys nifer o setiau data defnyddiol all ein helpu i ddeall, er enghraifft, anghenion dysgu ychwanegol plant a'r ieithoedd y mae plant yn eu siarad.

Hefyd, mae ymgynghorydd Addysg Ddewisol yn y Cartref (EHE) yr Awdurdod Lleol yn cadw data ar nifer y plant sy'n cael eu haddysgu gartref ar y pryd. Mae'r Cyngor hefyd yn cadw data ar faint o bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET).

Iechyd

Mae Iechyd yng Nghymru ac Ystadegau Cymru yn cadw data all ein helpu i ddeall anghenion iechyd plant, pobl ifanc a theuluoedd yn Sir Gaerfyrddin. Mae Asesiad Llesiant Sir Gaerfyrddin yn cynnwys gwybodaeth o bob math all ein helpu i wneud penderfyniadau gwybodus am chwarae.

Amddifadedd

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (WIMD) yw'r mesur swyddogol o amddifadedd cymharol ar gyfer ardaloedd bychain yng Nghymru. Defnyddiodd mynegai 2019 47 dangosydd ar draws 8 pau i fesur amddifadedd. Mae Ffigur 3 (ATODIAD C) yn enghraifft o sut ellir defnyddio'r data hwn i ddangos cyfraddau amddifadedd ar draws Sir Gaerfyrddin, po dywyllaf y glas, mwyaf amddifad yw'r ardal.

Yn yr WIMD ceir pedwar dangosydd allweddol ar blant yn eu blynyddoedd cynnar (dan 7). Mae Tabl 2 isod yn rhoi crynodeb o'r wybodaeth hon ar lefel sirol. Gellir defnyddio'r data hwn ar lefel LSOA hefyd.

Tabl 2: Cyfraddau a sgoriau dangosyddion amddifadedd WIMD ar gyfer plant ifanc yn Sir Gaerfyrddin a Chymru¹³

	Plant 0 i 4 oed mewn amddifadedd incwm (%)	Pwysau geni isel (%)	Plant 4 i 5 sy'n ordew (%)	Sgôr pwyntiau cyfartalog yn y Cyfnod Sylfaen
Sir Gaerfyrddin	26	5.4	12.8	104
Cymru	28	5.5	11.8	104

Matter A: Population

6.3 Camau i'r Dyfodol

Mae'r Grŵp Rhanddeiliaid Digonolrwydd Chwarae yn cynnwys y Cyngor a nifer o bartneriaid gwahanol sy'n effeithio ar ddarpariaeth Chwarae yn Sir Gaerfyrddin. O fewn pob Mater mae'r grŵp hwn wedi adnabod Camau i'r Dyfodol fydd yn mynd i'r afael â bylchau ac yn cynnal a gwella darpariaeth chwarae er budd plant, pobl ifanc a theuluoedd. Y camau a argymhellir ar gyfer Mater A: Poblogaeth yw:

CAM:

- Defnyddir data o ystod eang o ffynonellau wrth wneud penderfyniadau, gan sicrhau bod y ddarpariaeth chwarae yn adlewyrchu anghenion a'i bod ar gael mewn ardaloedd hygyrch a phriodol.
- Cydweithio â phartneriaid i gasglu a rhannu data a gwybodaeth all gefnogi dealltwriaeth a phrosesau gwneud penderfyniadau ystyrlon.

Mater B: Diwallu Anghenion Amrywiol

7.1 Mwy am Fater B: Diwallu Anghenion Amrywiol

Dylai pob plentyn, person ifanc a theulu allu chwarae. Mae'n bwysig cydnabod y gall ystod o anghenion ei gwneud yn fwy heriol i blant a phobl ifanc allu gwneud y chwarae maen nhw ei eisiau. Mae'r Mater yn ymwneud â sicrhau bod yr heriau hyn yn cael eu hystyried wrth wneud penderfyniadau am chwarae.

7.2 Beth Ddarganfyddom Ni

Wrth ystyried darpariaeth ar gyfer anghenion amrywiol rhoesom ystyriaeth i'r data sydd ar gael (gweler adran 6.0) a beth ddywedodd rhieni / gofalwyr, plant a phobl ifanc a chanddynt anghenion amrywiol wrthym.

Cymunedau Gwledig

Mae mapio darpariaeth chwarae (yn fannau chwarae awyr agored a darpariaeth dan do) wedi'n galluogi i ddeall beth sydd ar gael mewn cymunedau gwledig.

O'r broses fapio hon, gwelir fod gan ardaloedd gwledig lai o ddarpariaeth nag ardaloedd trefol, ond gellid dadlau fod ganddynt fwy o fannau awyr agored sydd ar gael ar gyfer chwarae megis mannau agored a choetir. Mae'r ddarpariaeth dan do yn gyfyngedig a soniodd pobl o ardaloedd gwledig am effaith colli seilwaith cymunedol megis ysgolion ac adeiladau cymunedol ar chwarae. Mae prosiect Clwb Bach wedi dangos sut all pobl leol weithio i ymateb i anghenion chwarae yn eu cymuned. Ymatebodd y prosiect i bryderon cymunedol nad oedd plant lleol yn chwarae gyda'i gilydd oherwydd eu bod yn mynd i ysgolion gwahanol, ac mae'n darparu gweithgareddau a digwyddiadau yn cynnwys Ysgol Goedwig a chwarae adeiladu a chwalu.

Mater B: Diwallu Anghenion Amrywiol

Ymhlith y pethau ddywedodd teuluoedd yn byw mewn ardaloedd gwledig mae:

“Mae’n warthus nad oes dim byd ar gael am filltiroedd. Pan ewch chi i’r lle chwarae ‘does dim teuluoedd eraill yno, oherwydd mae prinder cyfleusterau yn arwain at brinder pobl hefyd.”

“Rwyf yn chwarae yn yr ysgol gyda ffrindiau ond gartref ar fy mhen fy hun gan nad ydym yn byw’n agos at unrhyw un.”

“Os ydych chi’n byw mewn ardal wledig rydych yn byw mewn cymuned anghofiedig. Mae’n rhaid inni yrru i Lamed dim ond i fynd i le chwarae.”

“Pan gaeodd ein hysgol diflannodd yr hyn oedd yn dod â theuluoedd lleol at ei gilydd. Mae pawb ar wasgar erbyn hyn, mae’r plant yn mynd i ysgolion eraill, rydyn ni’n lwcus i gael Clwb Bach i ddod â ni’n ôl at ein gilydd.”

“Mae lle chwarae i blant bach ond dim byd inni. Gallwn gwrdd yn nhai ein gilydd ond dyna hi. Ac mae angen lifft gan mam neu dad i wneud hynny.”

laith

Ar draws y Sir mae nifer o gyfleoedd chwarae wedi’u goruchwylio drwy gyfrwng y Gymraeg, gan gynnwys 39 Cylch Meithrin, 21 Cylch Ti a Fi a 3 Menter Iaith. Hefyd, mae Cymraeg i Blant (prosiect Llywodraeth Cymru, a reolir gan y Mudiad Meithrin) yn cynnig nifer o grwpiau a gweithgareddau am ddim i rieni a phlant bach. Mae’r Urdd yn cynnig cyfleoedd a gweithgareddau ar gyfer plant a phobl ifanc i ddysgu a chymdeithasu trwy gyfrwng y Gymraeg. Maen nhw’n cynnig cyfleoedd diwylliannol a chwaraeon trwy’r ysgol, mewn clybiau cymunedol ac yn ystod gwyliau ysgol. Mae’r Clybiau Ffermwyr Ifanc hefyd yn fywiog iawn, ac mae sesiynau cyfrwng Cymraeg hefyd ar gael mewn clybiau ieuenctid.

Mae heriau wrth geisio darparu cyfleoedd chwarae yn y Gymraeg, ac un o’r prif rai yw ceisio denu siaradwyr Cymraeg i gynnig am swyddi gwaith chwarae. Fe fuon ni’n siarad â nifer o rieni a gofawyr sy’n defnyddio neu fyddai’n hoffi defnyddio darpariaeth chwarae yn y Gymraeg, ac roedd rhai o’r pethau a ddywedwyd yn cynnwys:

Mater B: Diwallu Anghenion Amrywiol

“Mae pethau wedi gwella ac mae mwy o glybiau chwaraeon sy’n hyfforddi yn y Gymraeg, ac i’r un bach mwy o bethau fel amser rhigwm.”

“Alla i ddim siarad Cymraeg; rwy’n ceisio dysgu ond dydw i ddim yn teimlo mod i’n perthyn yn rhai o’r grwpiau Cymraeg. Roedd yn well gen i’r rhai gydag ambell gân yn Gymraeg, ond maen nhw wedi dod i ben yn Covid.”

“Rwy’n credu fod llawer yn Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin, ond rydych chi’n fwy tebyg o orfod talu am chwarae yn Gymraeg, mae llawer llai o stwff am ddim nag yn Saesneg.”

“Mae cael sesiwn chwarae yn y Gymraeg yn helpu fy mhlentyn i ddeall Cymraeg fel y norm. Felly, y gobaith yw y bydd yn ystyried ei hun yn ddwyieithog, yn hytrach na chael iaith gyntaf ac ail iaith.”

Diwylliant

Fel rhan o ddatblygu proses yr Aseiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae buom yn siarad â’r Cydlynnydd Addysg Sipsiwn a Theithwyr, ac esboniodd hithau fod offer chwarae gosod yn cael ei ddarparu ar y safle ac y cynigiwyd cyfleoedd ar gyfer darpariaeth chwarae, y Bws Chwarae er enghraifft, ond y cawsant eu gwrthod. Mae’r niferoedd sy’n manteisio ar wasanaethau meithrin a gofal plant yn isel iawn hefyd o fewn y gymuned hon. Trwy’r Cydlynnydd Addysg Sipsiwn a Theithwyr, gofynasom a fyddai’r gymuned hon yn awyddus i gymryd rhan yn yr Aseiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae, ond cafodd y cynnig ei wrthod.

Plant a phobl ifanc LHDTCA

Er mwyn ymgysylltu â’r gymuned LHDTCA aethom i’r prosiect ieuencid LHDTCA i siarad â phobl ifanc am eu profiadau. Cawsom wybod y byddai’n well ganddynt ddarpariaeth sydd ar eu cyfer nhw sy’n eu galluogi i “fod yn nhw’u hunain, heb orfod cuddio a phoeni am gael eu barnu.”

Gofalwyr Ifanc

Mae gwasanaeth Gofalwyr Ifanc Sir Gaerfyrddin yn darparu ar gyfer cefnogaeth i blant a phobl ifanc a chanddynt gyfrifoldebau gofal.

Mater B: Diwallu Anghenion Amrywiol

Anabledd

Mae'r Awdurdod Lleol wedi buddsodd arian i ddarparu offer chwarae gosod y gall plant ag anableddau ei ddefnyddio. Bydd y buddsoddiad hwn yn mynd beth o'r ffordd at gynnig cyfleoedd cyfartal a byddwn yn dysgu o'r prosiect hwn wrth wneud penderfyniadau am offer chwarae gosod yn y dyfodol.

Mae clybiau chwarae anableddau yn Sir Gaerfyrddin wedi teimlo effeithiau cyni. Mae cyllid Haf o Hwyl a Gaeaf Llawn Lles wedi'n galluogi i ddarparu gwasanaethau gwyliau, ond rhywbeth dros dro yw hyn ac mae angen i'r Tîm Anableddau Plant a Chomisiynu edrych ar ffordd o ddod o hyd i fodel mwy cynaliadwy ar gyfer y ddarpariaeth mawr ei hangen hon.

Dyweddodd teuluoedd sy'n cael eu heffeithio gan anabledd wrthym:

"Rwy'n credu y bu grwpiau ar gyfer teuluoedd fel ni ar un adeg ond ddim erbyn hyn. I ble aethon nhw? Ai diffyg arian yn unig yw'r broblem, neu ydyn ni ddim yn flaenoriaeth?"

"Os oes gennych blentyn ag anabledd, roeddech ar eich pen eich hun cyn Covid. Rydym angen lleoedd lle y gallwn chwarae â theuluoedd eraill sy'n cael eu heffeithio gan anabledd. Teuluoedd sy'n deall pa mor galed ydyw."

"Ffoniais y rhif ar wefan y Cyngor a'r cyfan wnaethon nhw oedd argymell fy mod yn cysylltu â Chwaraeon Anabledd Cymru ac nid dyna sydd ei angen ar fy mhlant i."

"Rwyf am iddyn nhw chwarae gyda phlant o bob gallu ond rydyn ni hefyd angen lleoedd lle y gall eich plant chwarae gyda phlant eraill a chanddyn nhw'r un anghenion ac sy'n deall. Pan mae'r rhieni yn deall hefyd, mae'n rhaid inni ddibynnu ar fynd i leoedd yr ydyn ni'n gwybod y byddan nhw'n dawel."

Mater B: Diwallu Anghenion Amrywiol

7.3 Camau i'r Dyfodol

Y camau a argymhellir ar gyfer Mater B: Diwallu Anghenion Amrywiol yw:

CAM:

- Parhau i ariannu gweithgareddau chwarae gwledig a datblygu chwarae.
- Dysgu o drefniadau llwyddiannus fel Clwb Bach ac grymuso cymunedau gwledig.
- Parhau i gefnogi lleoliadau cyfrwng Cymraeg a rhai sydd wrthi'n cael eu sefydlu.
- Gwella gwaith maes ac ymgysylltu mewn cymunedau diwylliannol o bob math.
- Gweithio gyda chomisiynwyr i ddatblygu cynnig chwarae anabledd, a luniwyd trwy ymgysylltu
- Adolygu aelodaeth y Grŵp Rhanddeiliaid Digonolrwydd Chwarae er mwyn cynnwys ystod fwy amrywiol a chynrychioliadol o sefydliadau.
- Gweithio mewn ffordd systematig wrth fuddsoddi arian, trwy ymgysylltu â theuluoedd o grwpiau na chlywir ganddynt yn aml a grwpiau amrywiol i ddatblygu maen prawf wrth ddatblygu'r broses gwneud cais am arian. Er enghraifft, gwaith gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd a effeithiwyd gan anabledd i greu meini prawf ar gyfer darpariaeth / digwyddiadau chwarae wedi'u goruchwylio. Pan ddaw arian ar gael dylid defnyddio'r maen prawf wrth i'r broses gwneud cais gael ei datblygu.
- Creu pecyn gwaith a rhaglen gefnogi i alluogi cymunedau i gael eu grymuso i ddatblygu a darparu'r math o chwarae maen nhw ei angen.
- Gweithio mewn partneriaeth gyda rheolwr comisiynu Cyngor Sir Caerfyrddin i edrych ar ddulliau cynaliadwy o ariannu darpariaeth chwarae ar gyfer grwpiau ag anghenion amrywiol.
- Cydweithio i sicrhau bod teuluoedd yn ymwybodol o'r cyfleoedd chwarae a'r gefnogaeth sydd ar gael iddyn nhw.
- Parhau i ymgysylltu gydag a gwrando ar gymunedau ag anghenion amrywiol.
- Chwilio, gyda'r Grwpiau Rhanddeiliaid Digonolrwydd Chwarae, am fecanwaith ar gyfer darganfod capasiti ychwanegol (un aelod o staff) i alluogi'r grŵp LHDTTC i aildechrau cynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb.

Mater C: Y lle sydd ar gael i blant chwarae

8.1 Mwy am Fater C: Y lle sydd ar gael i blant chwarae

Mae mannau agored, gan gynnwys rhwydwaith ein sir o barciau, lleoedd chwarae, mannau gwyrdd choetir yn lleoedd pwysig i blant chwarae ac i bobl ifanc gael amser da ynddynt. Mae'r Mater hwn yn edrych ar y mannau hyn a'r defnydd a wneir ac y gellid ei wneud ohonynt gan blant, pobl ifanc a theuluoedd ar gyfer chwarae.

8.2 Beth Ddarganfyddom Ni

Mannau Agored

Mae Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Sir Gaerfyrddin (CDLI) 2018 – 2033: Asesiad Mannau Agored (Ionawr 2020)¹⁴ yn ceisio asesu'r safonau canlynol:

- Nifer y Mannau Agored: A oes angen darpariaeth newydd ar gyfer ardal.
- Hygyrchedd Mannau Agored: A yw'r ddarpariaeth bresennol yn hwylus hygyrch i'r gymuned leol.

O ran y mannau cyhoeddus agored sydd ar gael, dywed yr asesiad "Ar y cyfan, mae gan Sir Gaerfyrddin ddarpariaeth uchel o fannau agored cyhoeddus, ac mae'r ddarpariaeth mannau gwyrdd amwynder a pharciau a gerddi ill dau yn rhagori ar safonau Meysydd Chwarae Cymru. Fodd bynnag, o ddadansoddi'r ddarpariaeth fesul ward etholiadol, mae 29 o'r 58 ward etholiadol yn is na'r safon meincnod, sef 0.6ha fesul 1000 o'r boblogaeth ar gyfer mannau gwyrdd amwynder, gyda 3 ward heb unrhyw ddarpariaeth o gwbl. Mae Ffigur 8 yn rhoi dadansoddiad o'r ddarpariaeth mannau gwyrdd amwynder fesul ward etholiadol. Gyda golwg ar barciau a gerddi, dangosir bod 25 o'r 58 o wardiau etholiadol yn ddiffygiol, ac nid oes unrhyw ddarpariaeth mewn 19 o'r wardiau. Mae Ffigur 9 yn rhoi dadansoddiad o'r ddarpariaeth parciau a gerddi fesul ward etholiadol. Ymddengys fod y wardiau diffygiol yng ngorllewin y Sir yn bennaf, yn ogystal â nifer fach o wardiau trefol iawn yn ne-ddwyrain y sir.¹⁵"

Mae'r asesiad yn argymhell y dylid defnyddio'r Cynllun Datblygu Lleol mewn ardaloedd sy'n cynnwys gormodedd o fannau agored er mwyn diogelu a chynnal y lleoedd hynny ar gyfer y gymuned. Pan mae prinder darpariaeth, er mwyn creu mannau newydd, dylid diogelu'r rhai presennol a "lle nad yw hyn yn bosibl, bod camau lliniaru yn cael eu cymryd mewn mannau eraill.¹⁶" Mae cyfraniadau Adran 106 yn parhau i fod yn ffordd bwysig o fuddsoddi mewn mannau awyr agored ar gyfer chwarae, a defnyddir canlyniadau'r asesiad hwn wrth wneud penderfyniadau.

Lleoedd Chwarae Awyr Agored Dynodedig Heb eu Staffio

Mae Safon Meysydd Chwarae Cymru (FIT) yn feincnod a gydnabyddir yn genedlaethol ar gyfer darparu chwaraeon a chyfleoedd awyr agored ar gyfer plant a phobl ifanc. Fel y dywedwyd eisoes, "mae gan Sir Gaerfyrddin ddarpariaeth uchel o fannau agored cyhoeddus, ac mae'r ddarpariaeth mannau gwyrdd amwynder a pharciau a gerddi ill dau yn rhagori ar safonau Meysydd Chwarae Cymru.¹⁷" Fodd bynnag, ar lefel leol mae diffygion pwysig yn y ddarpariaeth, gan ddefnyddio Meincnod Meysydd Chwarae Cymru, fel y gwelir yn ATODIAD E, a gymerwyd o Gynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Sir Gaerfyrddin (CDLI) 2018 – 2033: Asesiad Mannau Agored.

Mater C: Y lle sydd ar gael i blant chwarae

Mae'n bwysig cydnabod y gwnaeth Cyngor Sir Caerfyrddin y penderfyniad i drosglwyddo cyfran sylweddol o gyfleusterau chwarae a hamdden i Gynghorau Tref a Chymuned. O'r 127 lle chwarae awyr agored yng Nghaerfyrddin, dim ond Parc Howard sy'n parhau i fod yn gyfrifoldeb y Cyngor Sir ac nid yw 17 lle chwarae wedi cael eu trosglwyddo eto. Wrth ymgysylltu â Chynghorau Tref a Chymuned gwelwyd fod pryderon am gynnal a chadw'r lleoedd chwarae presennol ac am eu cynaliadwyedd. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddarparu cefnogaeth a chyngor ar hyn ac roedd cyllid ar gael fel rhan o'r broses trosglwyddo asedau cymunedol.

Dywed 87% o Gynghorau Tref a Chymuned fod darparu cyfleusterau chwarae yn flaenoriaeth iddynt, a dywedodd 71% eu bod wrthi'n cynllunio prosiectau i gynnal a chreu mwy o gyfleoedd chwarae. Roedd 73% yn ymgysylltu gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd wrth wneud penderfyniadau am chwarae.

Mae manau awyr agored yn parhau'n lleoedd chwarae poblogaidd, a dywedodd 46% o blant, 'mai lle chwarae yn cynnwys siglenni, llithrennau ac offer arall' yw un o'u hoff leoedd i chwarae a dewisodd 37% o bobl ifanc 'lecyn neu gae gwair lleol.'

Ymhlith y pethau a ddywedodd plant, pobl ifanc a theuluoedd wrthym am eu parciau a manau agored mae:

"Mae parc yn ein hardal ni, ond dydw i ddim yn teimlo'n ddiogel yno, dyw e ddim fel clwb ieuenctid sy'n darparu goruchwyliaeth. Gallech fynd i lawr yno a gweld rhywun yn cymryd cyffuriau neu'n yfed. Rwy'n cytuno gyda fy nhad nad yw'n ddiogel."

"Mae fy mhlant yn eu harddegau ac mae'n teimlo fel eu bod wedi tyfu allan o bopeth heblaw'r XBOX. Beth sydd yna iddyn nhw wneud?"

"Rwy'n credu fod y lleoedd chwarae yn mynd yn llai diddorol a dychmyglon. Fe hoffwn i weld mwy o chwarae naturiol yn fy nghymuned."

"Pan rwy'n mynd â fy mhlentyn bach i le chwarae, weithiau mae yna blant hŷn yn eistedd ar y ffrâm ddringo a'r siglenni. Maen nhw fel arfer yn symud ymlaen pan mae rhywun yn gofyn iddyn nhw, ac allwch chi ddim eu beio gan nad oes dim byd arall iddyn nhw ei wneud."

Mater C: Y lle sydd ar gael i blant chwarae

Fel rhan o'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae, fe fuom yn gweld ac asesu'r holl leoedd chwarae gan ddefnyddio Adnodd 2: Archwilio Lleoedd Chwarae ac Adnodd 3: Asesiad Mynediad at Leoedd Chwarae o Becyn Gwaith Creu Lleoedd Chwarae Hygyrch Chwarae Cymru.¹⁸ Galluogodd hyn ni i adnabod prinderau, gan gynnwys darpariaeth ar gyfer pobl ifanc, offer hygyrch ar gyfer plant a phobl ifanc ag anableddau a chwarae naturiol.

8.3 Camau i'r Dyfodol

Y camau a argymhellir ar gyfer Mater C: Y lle sydd ar gael i blant chwarae yw:

CAM:

- Cydweithio ag a chefnogi Cynghorau Tref a Chymuned i gynnal, gwella a datblygu darpariaeth chwarae.
- Monitro cynnydd y Cynllun Datblygu Lleol wedi'i ddiweddarau.
- Rhannu data a gwybodaeth fel bod Cynghorau Tref a Chymuned yn deall y prinderau yn y ddarpariaeth.
- Sicrhau bod plant, pobl ifanc a theuluoedd yn cyfrannu at benderfyniadau am chwarae.
- Gweithio gyda phartneriaid megis Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol i hyrwyddo chwarae mewn mannau agored a chwarae naturiol.
- Buddsoddi arian Adran 106 a chyllid arall mewn ffordd benodol er mwyn mynd i'r afael â phrinderau yn y ddarpariaeth.
- Hyrwyddo Adnodd Creu Lleoedd Chwarae Chwareus Strategaeth Seilwaith Gwyrdd a Glas Sir Gaerfyrddin (GBI) a chefnogi Cynghorau Tref a Chymuned yn a thu hwnt i'r wyth tref y mae strategaeth GBI yn canolbwyntio arnynt.
- Annog Cynghorau Tref a Chymuned i gefnogi chwarae di-fwg.
- Cefnogi Prosiect Pobl yn Codi eu Llais i gael gwared ag arwyddion dim gemau pêl yn Sir Gaerfyrddin.

Mater D: Darparu cyfleoedd dan oruchwyliaeth

9.1 Mwy am Fater D: Darpariaeth Wedi'i Goruchwyllo

Dywed yr Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae y dylai Awdurdodau Lleol anelu at gynig dewis o ddarpariaeth chwarae wedi'i goruchwyllo gan gynnwys grwpiau chwarae a gweithgareddau hamdden wedi'u trefnu ar gyfer plant.

9.2 Beth Ddarganfyddom Ni

Mae ystod o Ddarpariaeth Wedi'i Goruchwyllo ar gael ar draws Sir Gaerfyrddin gan gynnwys:

- Grwpiau a Sesiynau Chwarae
- Lleoliadau Gofal Plant
- Clybiau Brecwast a Chlybiau Ar Ôl Ysgol
- Cynlluniau Chwarae Adeg Gwyliau
- Clybiau a Chlybiau Ieuencid

Mae'r Awdurdod Lleol yn darparu gwasanaethau gofal plant a chwarae fel rhan o raglen Dechrau'n Deg, trwy'r Canolfannau Plant Integredig a chlybiau ieuencid trwy ei Wasanaethau Ieuencid. Mae'n darparu cefnogaeth a chyllid ar gyfer lleoliadau gofal plant. Y tu hwnt i hynny nid yw'r Awdurdod ei hun yn cynnig darpariaeth wedi'i goruchwyllo, ond mae'n darparu cyllid, er enghraifft trwy'r Haf o Hwyl a phrosiect strydoedd chwarae Gaeaf Llawn Lles, yn ogystal â chefnogaeth i leoliadau wella ansawdd y chwarae a ddarparant trwy hyfforddiant.

Gall plant, pobl ifanc a theuluoedd ar draws y Sir fanteisio ar nifer o weithgareddau chwarae, hamdden, chwaraeon a diwylliannol a ddarperir gan y sectorau cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector. Mae Chwaraeon a Hamdden Actif yn darparu lleoedd a manau chwaraeon a hamdden ar gyfer Cyngor Sir Caerfyrddin. Maen nhw'n rhan o'r Grŵp Rhanddeiliaid Digonolrwydd Chwarae ac maent wedi cefnogi a datblygu cyfleoedd chwarae, er enghraifft rhaglen weithgareddau hanner tymor a ariannwyd gan Gaeaf Llawn Lles. Maen nhw hefyd yn darparu rhaglenni er mwyn cyfoethogi'r gweithlu chwarae, er enghraifft yn hyfforddi athrawon i ddarparu gweithgareddau chwarae. Mae eu rhaglen llysgenhadon ifanc yn annog plant i hyrwyddo chwarae a gweithgareddau i'w cyd fyfyrwyr mewn ysgolion.

Mater D: Darparu cyfleoedd dan oruchwyliaeth

9.3 Camau i'r Dyfodol

Y camau a argymhellir ar gyfer Mater D: Darparu cyfleoedd dan oruchwyliaeth yw:

CAM:

- Datblygu darpariaeth sicrhau ansawdd ar gyfer chwarae wedi'i oruchwyllo.
- Diweddarau meini prawf ariannu i gynnwys gofynion o ran ansawdd y ddarpariaeth a datblygiad proffesiynol parhaus.
- Gweithio gyda gwasanaethau ieuenctid, y cyngor ieuenctid a Chynghorau Tref a Chymuned i fynd i'r afael â phrinder darpariaeth.
- Parhau i ddarparu cyngor, cefnogaeth a hyfforddiant i leoliadau er mwyn cynnig darpariaeth chwarae gyfoethog ac o ansawdd uchel.
- Dylai'r Grŵp Rhanddeiliaid Digonolrwydd Chwarae ddatblygu maen prawf ar gyfer darpariaeth chwarae wedi'i goruchwyllo y gellir ei ddefnyddio i arwain y ffordd y caiff arian ei fuddsoddi pan ddaw ar gael.
- Archwilio gyda phartneriaid sut, y tu hwnt i oes arian grant tymor byr fel Haf o Hwyl a Gaeaf Llawn Lles, y gellir cynnal a pharhau prosiect chwarae wedi'i oruchwyllo.
- Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd.
- Parhau i gydweithio gyda Thîm Hamdden Actif a'r Gwasanaethau Ieuenctid, a chwilio am gyfleoedd i weithio mewn partneriaeth i fynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth.

Mater E: Taliadau ar gyfer darpariaeth chwarae

10.1 Mwy am Fater E: Taliadau ar gyfer darpariaeth chwarae

Dywed y gofynion ar gyfer y Mater hwn “Dylai'r Awdurdod Lleol ystyried pa gyfleoedd chwarae sy'n codi tâl ac i ba raddau y mae'r Awdurdod Lleol yn ystyried y taliadau hyn wrth asesu digonolrwydd cyfleoedd chwarae i blant o deuluoedd incwm isel fel y nodir yn y Canllawiau Statudol.¹⁹”

10.2 Beth ddarganfyddom Ni

Mae nifer o gyfleoedd chwarae ar gael yn rhad ac am ddim gan gynnwys cyfleoedd chwarae yn y Canolfannau Plant Integredig a phrosiectau a ddarperir gan sefydliadau fel Pobl yn Codi eu Llais ac Actif Hamdden. Defnyddir rhaglenni ariannu megis Haf o Hwyl a Gaeaf Llawn Lles i ddarparu gweithgareddau a digwyddiadau chwarae am ddim i deuluoedd, gan ganolbwyntio ar ardaloedd difreintiedig. Mae'n bwysig cydnabod oherwydd gwirioneddau economaidd ac effaith chwarae, nad yw'n ymarferol darparu chwarae rhad ac am ddim i bawb.

Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd a Dewis yn gweithio'n galed i sicrhau bod gwybodaeth ar gael i deuluoedd am gyfleoedd chwarae am ddim ac am gost isel. Fodd bynnag, mae hyn yn dibynnu ar y darparwyr yn rhoi'r wybodaeth berthnasol i'r gwasanaethau hyn. Hefyd, mae trafodaethau mewn grwpiau trafod yn awgrymu mai cyfyngedig yw'r ymwybyddiaeth o'r cyfeiriaduron hyn.

Mae teuluoedd y buon ni'n siarad â nhw yn awgrymu fod canfyddiad cynyddol fod chwarae yn mynd yn ddrutach, yn enwedig wrth ystyried yr holl gostau megis teithio a bwyd. Ymhlith y pethau a ddywedodd plant, pobl ifanc a theuluoedd wrthym am gost chwarae mae:

“I'm harddegwyr i, yr unig bethau sy'n eu diddori yw'r stwff drud, y Tablet, yr x-box. Maen nhw eisiau'r cyfan.”

“Mae gen i bedwar o blant; mae'n mynd i gyrraedd y pwynt lle mae'n rhaid imi dalu'r bil trydan a fyddan nhw ddim yn gallu mynd i ddosbarthiadau dawns a phêl droed.”

“Wrth i fwyd fynd yn ddrutach, biliau'n mynd yn fwy bydd rhaid inni feddwl allwn ni fforddio'r holl glybiau maen nhw'n mynd iddyn nhw.”

“Ydyn, mae'r parciau am ddim ac mae'r traethau am ddim. Mae hynny'n wych. Ond pan mae'n oer mae'n rhaid ichi dalu i chwarae.”

“Mae gennym ni bedwar o blant felly mae mynd â nhw i nofio neu i chwarae meddal yn dipyn o gost. Os oes 'na stwff am ddim ar gael, dydw i ddim yn gwybod sut i ddod o hyd iddo.”

Mater E: Taliadau ar gyfer darpariaeth chwarae

10.3 Camau i'r Dyfodol

Y camau a argymhellir ar gyfer Mater E: Taliadau ar gyfer Ddarpariaeth Chwarae

CAM:

- Defnyddio data demograffeg i ddeall angen o ran amddifadedd, gwledigrwydd ac anabled. Gwneud penderfyniadau gwybodus ynghylch buddsoddi arian yn seiliedig ar y wybodaeth hon.
- Gweithio gyda'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd a Dewis i sicrhau bod gwybodaeth fanwl-gywir ar gael i deuluoedd i'w helpu i ddod o hyd i a manteisio ar gyfleoedd chwarae am ddim a chost isel.
- Ei gwneud yn rhwyddach i blant, pobl ifanc a theuluoedd gael gafael ar wybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus a theithio rhatach.
- Parhau i gefnogi cymunedau i ddod o hyd i ffrydiau ariannu a'u cyfeirio at wasanaethau fel CAVS i gael gwybodaeth am y grantiau sydd ar gael.
- Annog prosiectau chwarae cymunedol i ddefnyddio arian cychwynnol yn fan cychwyn ar gyfer cynnig hirdymor cynaliadwy.

Mater F: Mynediad i le/darpariaeth

11.1 Mwy am Fater F: Mynediad i le/darpariaeth

Mae'r Mater hwn yn ymwneud â sut mae'r Awdurdod Lleol yn deall ac yn rhoi ystyriaeth i'r ffactorau sy'n cyfrannu at allu plant i fanteisio ar gyfleoedd chwarae neu symud o gwmpas yn eu cymuned.

11.2 Beth ddarganfyddom Ni

Mynd a Dod Yn Ôl o Leoedd Chwarae

Mae plant, pobl ifanc a rhieni oll wedi dweud wrthym fod traffig a thrafnidiaeth yn effeithio ar eu gallu i chwarae:

- Dywedodd 60% o blant wrthym eu bod angen oedolyn â char i fynd â nhw i chwarae, mae 81% angen oedolyn â char i fynd â nhw i'r ysgol.
- Dywedodd 59% o bobl ifanc y byddai trafndiaeth i gyrraedd yno yn eu galluogi i gwrdd â'u ffrindiau yn amlach.
- Dywedodd 49% o rieni a gofawyr fod traffig yn atal eu plant rhag chwarae, a soniodd 17% am geir wedi'u parcio.
- Dywedodd 62% o Gynghorau Tref a Chymuned fod traffig yn rhwystro plant rhag chwarae yn eu cymuned nhw, a dywedodd 31% fod ceir wedi'u parcio yn broblem.

Ymhlith y pethau a ddywedodd plant, pobl ifanc a theuluoedd wrthym am fanteisio ar gyfleoedd chwarae mae:

"Os nad oedd gennych chi gar lle rydyn ni'n byw byddech mewn trafferth... rydyn ni'n gyrru 30 munud i fynd i barc digon da".

"Yn y cyfnod clo pan oedd parciau a grwpiau ar gau, fe gerddon ni lawer fel teulu... erbyn hyn rydyn ni'n ôl yn y car i fynd i rywle."

"Gallwn gerdded i'r dref, ond does dim llawer yno. Er mwyn mynd i rywle diddorol, mae'n rhaid imi ofyn i fy nhad am lifft."

"Beth allwn ni wneud yn agos i ble rydyn ni'n byw? Eistedd ar fainc, dyna hi."

"Mae'n ddrud nofio neu ddefnyddio'r ganolfan ddringo, mae'n anodd cyrraedd y traeth gan fod yr heol yn 50mya ac mae'n beryglus seiclo i fynd yno."

"Mae'r car gen i dros y Sul gan mod i'n gweithio, sy'n golygu nad yw fy mhartner ond yn gallu mynd i bethau o fewn pellter cyrraedd a does dim byd... dim byd heblaw mynd at ei rieni."

Mater F: Mynediad i le/darpariaeth

O'r 126 lle chwarae y buom ynddynt ac a aseswyd gennym fel rhan o'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae roedd 63 yn agos at drafnidiaeth gyhoeddus ac roedd 52 mewn parth 20mya a / neu'n agos at gamau arafu traffig. Mae gan y Cyngor weledigaeth ac ymrwymiad 'i wneud heolydd Sir Gaerfyrddin yn fwy diogel i bawb sy'n eu defnyddio.²⁰.

Defnyddir nifer o ddulliau strategol i gefnogi'r gwaith o wireddu'r dyhead hwn. Er enghraifft, mae Strategaeth Feicio Sir Gaerfyrddin: Canolbwynt Beicio Cymru²¹ (Ionawr 2018) yn amlinellu dyhead i sicrhau bod hyfforddiant hyfedredd seiclo ar gael ac o fewn cyrraedd i bob plentyn ysgol. Mae'r Cyngor wrthi ar hyn o bryd yn ymgynghori ar Mynediad at Gerdded a Seiclo (Teithio Llesol) gyda'r bwriad o "gynyddu nifer y cymudwyr ar feic ac ar droed.²²" Mae'r Cyngor hefyd yn cadw cofnodion o barthau 20mya, parthau diogelwch ysgolion a data damweiniau. Mae'r rhain yn dangos y gwaith sy'n cael ei wneud i sicrhau y gall pobl deithio'n ddiogel o gwmpas Sir Gaerfyrddin, ond ni roddir unrhyw ystyriaeth benodol i'r gallu i fanteisio ar gyfleoedd chwarae yn y cyswllt hwn.

Mae cyni a thorri cyllidebau yn parhau i effeithio ar argaeledd trafnidiaeth gyhoeddus, sy'n effeithio ar allu plant a phobl ifanc i chwarae a mwynhau cwmni ffrindiau os nad oes ganddynt riant / gofalydd â char all fynd â nhw.

Gwybodaeth, Cyhoeddusrwydd a Digwyddiadau

Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd a Dewis yn darparu gwybodaeth am ddarpariaeth chwarae, digwyddiadau a gweithgareddau sydd ar gael ledled y Sir. Fodd bynnag, mae'r ddau gyfeiriadur yn dibynnu ar ddarparwyr / lleoliadau yn darparu gwybodaeth gyfredol, glir a chryno, ac nid yw hynny'n digwydd bob tro. Hefyd, mae trafodaethau mewn sesiynau grwpiau trafod wedi dangos fod lefelau ymwybyddiaeth o'r ddau lwyfan yn isel. Mae'r Awdurdod Lleol hefyd yn hyrwyddo cyfleoedd chwarae trwy ei sianeli cyfryngau cymdeithasol a sianeli penodol ar gyfer y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd a'r Cyngor leuenctid. Mae darparwyr a phrosiectau chwarae hefyd yn hyrwyddo cyfleoedd i chwarae ar eu llwyfannau eu hunain.

Ymhlith y pethau a ddywedodd plant, pobl ifanc a theuluoedd wrthym am gael gafael ar wybodaeth am chwarae a phethau i'w gwneud mae:

"Dydw i ddim hyd yn oed yn gwybod os oes yna barc yn agos ataf i."

"Er mwyn cael gwybod beth sy'n digwydd mae'n rhaid ichi ddibynnu ar rieni eraill."

"Nid oedd unrhyw wybodaeth, nid oedd yn glir pryd fyddai grwpiau'n dechrau eto. Roedd gen i fabi newydd, a doeddwn i ddim yn yr hwyl i geisio darganfod beth oedd yn digwydd."

Mater F: Mynediad i le/darpariaeth

“Mae Covid wedi gwneud pethau’n anoddach, oherwydd weithiau nid oedd yn amlwg a oedd pethau’n digwydd ai peidio.”

“Mae’n rhaid ichi edrych ar yr holl grwpiau Facebook a gwefannau i gael gwybod beth sy’n digwydd, a byddai’n dda cael un wefan sy’n cynnwys popeth fel y gallech chi weld yn gyflym beth sy’n digwydd yfory.”

11.3 Camau i’r Dyfodol

Y camau a argymhellir ar gyfer Mater F: Mynediad i le/darpariaeth

CAM:

- Dylid cadw cynrychiolaeth Diogelwch Ffyrdd ar Grŵp Gweithredu’r Strategaeth Chwarae.
- Cymryd rhan yn yr ymgynghoriad ar y Strategaeth Teithio Llesol i sicrhau bod chwarae’n cael ei ystyried.
- Cefnogi a dysgu o’r gwaith Integreiddio Blynyddoedd Cynnar er mwyn cryfhau rôl y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd.
- Gofalu fod prosiectau, darparwyr a digwyddiadau chwarae yn darparu gwybodaeth i’r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd a Dewis.
- Parhau i hyrwyddo chwarae trwy gyfryngau cymdeithasol.
- Gwella cyrhaeddiad gwybodaeth trwy gydweithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid.
- Adolygu’r broses cau heolydd yng nghyd-destun chwarae. Cefnogi trefniant peilot Pobl yn Codi eu Llais.
- Darparu’r wybodaeth ddiweddaraf ar leoedd chwarae a chyfleoedd chwarae eraill i’r Great British Play Map.
- Adeiladu adran chwarae gwefan y GGT er mwyn cyfeirio teuluoedd at adnoddau a chefnogaeth arall, er enghraifft Chwarae Cymru.

Mater G: Sicrhau a Datblygu'r gweithlu chwarae

12.1 Mwy am Fater G: Sicrhau a Datblygu'r gweithlu chwarae

Mae'r Mater hwn yn galw ar yr Awdurdod Lleol "i ddarparu gwybodaeth am strwythur sefydliadol y maes polisi sy'n rheoli'r agenda chwarae a'r gweithlu chwarae.²³"

12.2 Beth ddarganfyddom Ni

Nid oes gan yr Awdurdod Lleol y capasiti i gadw cofnod cyfredol o weithwyr chwarae ar draws yr holl ddarpariaeth chwarae a gynigir gan y sectorau cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector. Mae ganddo'r gallu i ddefnyddio cyllid i gefnogi hyfforddiant trwy'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd a'r Tîmau Gofal Plant a Chwarae. Ar draws y Sir mae pobl sy'n cyflawni swydd benodol gweithwyr chwarae, ynghyd â phobl y mae eu swyddi'n cynnwys chwarae, er enghraifft darparwyr gofal plant, goruchwylwyr amser cinio, gweithwyr ieuencid a Thîm Actif Hamdden.

Mewn sgysiau gyda gweithwyr chwarae a lleoliadau chwarae a gofal plant daeth yn amlwg fod cyflogau isel, cyllid tymor byr i ganolig a'r isafswm safonau cenedlaethol yn dod yn broblem wrth geisio denu staff; er enghraifft, dywedodd un lleoliad wrthym: "Rwy'n hysbysebu tair swydd ar hyn o bryd, tair swydd fydd yn gwneud gwahaniaeth ym mywydau pobl ifanc, ond dyw'r gyflog ddim yn gystadleuol ac mae'n brosiect sy'n cael ei ariannu, felly mae'r swydd am 2 flynedd. Chawson ni ddim ymgeiswyr hyd yn hyn ac fe alla i weld pam." Esboniodd un arall: "Rydyn ni'n cael pobl sy'n cynnig am swyddi yn ein lleoliad ac maen nhw'n edrych yn dda ar bapur, yna rydych yn edrych ar y CV a does ganddyn nhw ddim y cymhwyster sydd ei angen. Maen nhw'n meddwl y gallan nhw weithio ym maes gofal plant gan y buon nhw'n gynorthwydd addysgu."

Mae gwirfoddolwyr yn rhan allweddol o'r gweithlu chwarae hefyd, yn cefnogi, galluogi a grymuso cymunedau i fynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth chwarae yn eu hardaloedd lleol, a bydd hynny'n golygu hyfforddi gwirfoddolwyr mewn nifer o feysydd gan gynnwys sut i ddod o hyd i arian.

12.3 Camau i'r Dyfodol

Y camau a argymhellir ar gyfer Mater G: Sicrhau a Datblygu'r gweithlu chwarae:

Mater G: Sicrhau a Datblygu'r gweithlu chwarae

CAM:

- Gweithio gyda Thimau'r GGT a Gofal Plant i gynnal archwiliad staff gofal plant a chwarae.
- Cydweithio gyda'r GGT a Gyrfa Cymru i rannu gwybodaeth fydd ar gael yn hwylus ar yrfaoedd a chwarae, gan gynnwys gwybodaeth am gymwysterau a rhestrau swyddi.
- Timau'r GGT, Gofal Plant a Chwarae i barhau i gefnogi a darparu hyfforddiant chwarae.
- Gwreiddio gofynion gofal plant a datblygiad proffesiynol yn y meini prawf cyllido.
- Dylai'r Cynorthwydd Datblygu Chwarae a Gofal Plant wneud hyfforddiant hyfforddi'r hyfforddwr er mwyn gwella capasiti.
- Dylid datblygu rhaglen hyfforddi gadarn a chynhwysfawr ar gyfer gwirfoddolwyr.
- Dylid ystyried casgliadau'r Aseiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant a Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin (WESP) a diweddarau cynllun CAM i adlewyrchu blaenoriaethau blwyddyn 1.
- Dylid datblygu rhaglen hyfforddi gadarn a chynhwysfawr ar gyfer gwirfoddolwyr.
- Mae angen Strategaeth Gyfathrebu ac Ymgysylltu i hyrwyddo chwarae gan gynnwys hyfforddiant.

Mater H: Ymgysylltu â'r gymuned a chymryd rhan ynddi

13.1 Mwy am Fater H: Ymgysylltu â'r gymuned a chymryd rhan ynddi

Mae'r Mater hwn yn ymwneud â sut yr ymgysylltir ac y cynhwysir plant, teuluoedd a rhanddeiliaid eraill mewn penderfyniadau am chwarae.

13.2 Beth ddarganfyddom Ni

Dylid cydnabod y cafodd rôl yr Awdurdod Lleol yn ddarparydd chwarae ei lleihau; er enghraifft, nid ydym mwyach yn gyfrifol am leoedd chwarae (ac eithrio Parc Howard). Buom yn darparu cyfleoedd chwarae cyfyngedig yn uniongyrchol, ond rydym yn darparu cyllid trwy raglenni fel Haf o Hwyl a Gaeaf Llawn Lles. Cafodd ein rôl yn wneuthurwr penderfyniadau ei chyfyngu hefyd, ond rydym wedi ymrwymo i ymgysylltu â chymunedau a siarad â nhw am chwarae.

Er enghraifft, mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod, yn unol â'r Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn, "fod gan blant a phobl ifanc yr hawl i ddweud beth maen nhw'n meddwl ddylai ddigwydd pan mae oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw ac i ddisgwyl y bydd eu sylwadau'n cael eu hystyried.²⁴" Mae'r Awdurdod Lleol yn gweithio i sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn gwybod beth yw eu hawliau a sut i gyfrannu at y penderfyniadau sy'n effeithio eu bywydau. Golyga hynny wrando ar farn, pryderon a safbwyntiau plant a phobl ifanc er mwyn sicrhau ein bod yn cynnal gwasanaethau cyhoeddus sy'n diwallu anghenion plant a phobl ifanc ac yn gwella'r ffordd rydym yn gweithio.

Gwneir hynny trwy weithio gyda sefydliadau gan gynnwys:

- Cyngor Ieuenctid Sir Gaerfyrddin
- Cynghorau Ysgol
- Cymru Ifanc

Mae Llywodraeth Cymru, yr Awdurdod Lleol a'u partneriaid yn darparu nifer o ymgysylltiadau ac ymgynghoriadau cymunedol sydd ddim ynghylch chwarae ond all gynnig golwg werthfawr ar anghenion a dyheadau cymunedau am chwarae. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys yr ymgynghoriad i gefnogi Aseiad Llesiant Sir Gaerfyrddin, Arolwg Coronafeirws a Fi Comisiynydd Plant Cymru a Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin (WESP).

Mae ysgolion a Chynghorau Tref a Chymuned yn wneuthurwyr penderfyniadau allweddol ar gyfer darparu chwarae. Dywedodd yr ysgolion hynny a gymerodd ran yn ein harolwg eu bod wedi ymrwymo i wrando ar eu myfyrwyr am chwarae. Maen nhw'n defnyddio dulliau megis cynghorau ysgolion, llysgenhadon chwaraeon a siarad â phlant i ofyn iddynt am eu barn. Mae 73% o Gynghorau Tref a Chymuned yn cynnwys plant, pobl ifanc a rhieni mewn penderfyniadau am chwarae trwy weithio gydag ysgolion a digwyddiadau a gweithgareddau ymgysylltu â'r gymuned.

Mae ymgysylltu â rhieni a gofalwyr, plant a phobl ifanc wedi amlygu pryder am ddiogelwch mewn mannau cyhoeddus agored, parciau a lleoedd chwarae. Clywyd pryderon yn cynnwys ymddygiad gwrthgymdeithasol, cymryd cyffuriau a difrod i offer chwarae. Mae data am dueddiadau trosedd yn Sir Gaerfyrddin²⁵ yn dangos:

Matter H: Community Engagement & Participation

- Fod ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi lleihau o gyfradd droseddu fesul 1,000 o drigolion o 44 yn 2018 i 26 yn 2021.
- Mae difrod troseddol wedi lleihau hefyd, o gyfradd droseddu o 13 fesul 1,000 o drigolion yn 2018 i 11 yn 2021.
- Gwaethygodd troseddau cyffuriau o gyfradd droseddu o 5 fesul 1,000 o drigolion yn 2018 i 6 yn 2021.
- Mae troseddau trefn gyhoeddus wedi codi o 7 fesul 1,000 o drigolion yn 2018 i 16 fesul 1,000 o drigolion.
- Mae Dyfed Powys yn cofnodi troseddau yn y mannau gwyrdd a enwir yn Sir Gaerfyrddin, ac yn ystod 2021 rhoddyd gwybod am 18 trosedd mewn man gwyrdd a enwyd. Mae hyn yn cyfateb i 13 trosedd yr hectar.

Mae hyn yn awgrymu angen i weithio gyda phartneriaid yn cynnwys Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Sir Gaerfyrddin (CSP) i roi sylw i realiti a chanfyddiadau troseddu a phryderon diogelwch cyhoeddus yn ein parciau a'n mannau agored.

13.3 Camau i'r Dyfodol

Y camau a argymhellir ar gyfer Mater H: Ymgysylltu â'r gymuned a chymryd rhan ynddi

CAM:

- Adolygu ac ehangu aelodaeth y Grŵp Rhanddeiliaid Digonolrwydd Chwarae.
- Chwilio am ffordd o ddod â Chynghorau Tref a Chymuned at ei gilydd i siarad am chwarae a rhannu arfer gorau.
- Dysgu o'r ymgysylltu cymunedol a gynhaliwyd gan yr Awdurdod Lleol a'i bartneriaid, er enghraifft Asesiad Llesiant Sir Gaerfyrddin, Arolwg Coronafeirws a Fi Comisiynydd Plant Cymru a Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin (WESP).
- Creu pecyn gwaith ar gyfer ymgysylltu â chymunedau am chwarae y gellir ei ddefnyddio gan bartneriaid. Dylai'r pecyn hwn gynnwys trefn ar gyfer rhoi adborth i bobl leol pan wneir penderfyniadau am chwarae.
- Gweithio gyda Phartneriaeth Diogelwch Cymunedol Sir Gaerfyrddin i roi sylw i bryderon a amlygwyd gan y PSA.

Mater I: Chwarae yn unol â phob polisi perthnasol ac agenda weithredu

14.1 Mwy am Fater I: Chwarae yn unol â phob polisi perthnasol ac agenda weithredu

Mae'r Mater hwn yn ymwneud â sut mae'r Awdurdod Lleol yn meddwl am yr effaith bosib ar chwarae wrth ddatblygu polisïau a strategaethau, ac am sut mae polisïau a strategaethau yn cael eu defnyddio i gyfoethogi cyfleoedd chwarae plant.

14.2 Beth ddarganfyddom Ni

Mae'r Grŵp Rhanddeiliaid Digonolrwydd Chwarae yn cynnwys cynrychiolwyr o nifer fawr o adrannau'r Cyngor, gan gynnwys cynllunio, parciau a mannau agored a diogelwch ffyrdd. Arweiniodd hyn at well cysylltiadau a ffyrdd gwahanol o feddwl. Enghraifft o'r cynnydd a wnaed yn y maes hwn yw Strategaeth Seilwaith Gwyrdd a Glas Sir Gaerfyrddin (GBI) (Ionawr 2022) sy'n canolbwyntio ar wella GBI mewn wyth tref yn Sir Gaerfyrddin. Mae'r strategaeth yn cynnwys Blwch Adnoddau GBI sy'n amlinellu ymyriadau gwahanol allai gryfhau'r rhywydwaith GBI, yn eu plith adnodd i greu lleoedd chwarae chwareus.

Mae'r Awdurdod Lleol wrthi'n cynnal Asesiad Llesiant; dywed Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 "wrth baratoi ei asesiad, fod rhaid i bob bwrdd ystyried pob un o'r canlynol... yr asesiad diweddaraf o ddigonolrwydd cyfleoedd chwarae yn yr ardal awdurdod lleol a gynhaliwyd o dan adran 11(1) o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 (mccc 1)²⁶". Mae gwaith yn mynd rhagddo ar strategaeth ysgolion cymunedol, a'r gobaiith yw y bydd hyn yn golygu y bydd ysgolion yn rhoi mwy o sylw i'w cymunedau ac y byddant yn galluogi ysgolion i ddefnyddio eu cyfleusterau. Enghraifft o ffordd bosib ymlaen yw Ysgol Gorslas, fydd yn llunio cytundeb rheoli gyda'r cyngor cymuned er mwyn i'r gymuned allu gwneud defnydd diogel a dan reolaeth o'r ysgol.

Fodd bynnag, rhaid cydnabod nad yw chwarae yn cael ei wreiddio'n ystyrlon mewn nifer o bolisïau allweddol. Mae hynny'n cyfyngu'r gallu i alinio'r gyllideb bresennol fel ei bod yn cefnogi a galluogi darpariaeth chwarae ddigonol i gwrdd ag anghenion y gymuned.

14.3 Camau i'r Dyfodol

Y camau a argymhellir ar gyfer Mater I: Chwarae yn unol â phob polisi perthnasol ac agenda weithredu

Mater I: Chwarae yn unol â phob polisi perthnasol ac agenda weithredu

CAM:

- Dylai'r Grŵp Rhanddeiliaid Digonolrwydd Chwarae gael eitem agenda ar gyfer polisi a strategaeth.
- Dylai'r Grŵp Rhanddeiliaid Digonolrwydd Chwarae ddatblygu dull cydlynol i sicrhau eu bod yn cyfrannu at ymgynghoriadau ar yr holl strategaethau a pholisïau perthnasol.
- Dylid dysgu gan a rhannu dysgu o gytundeb rheoli Ysgol Gorslas.
- Atgoffa ysgolion o'r hyfforddiant a'r cyllid chwarae sydd ar gael iddyn nhw.
- Dylai'r Grŵp Rhanddeiliaid Digonolrwydd Chwarae ddarparu meini prawf ar gyfer cyfrannu at raglen moderneiddio ysgolion.
- Parhau i ddarparu hyfforddiant a chefnogaeth, a chyllid lle y bo modd, i sicrhau bod lleoliadau blynyddoedd cynnar yn cynnig darpariaeth chwarae o ansawdd.
- Hyfforddiant chwarae (os oes ei angen) a rhannu arfer gorau ar draws mentrau cefnogi teuluoedd.
- Defnyddio ymgysylltu cymunedol i ddeall a yw pobl leol eisiau manteisio ar chwarae pontio'r cenedlaethau. Os yw'n flaenoriaeth dylid edrych ar ffyrdd o greu cyfleoedd chwarae pontio'r cenedlaethau.
- Cyfeirio rhanddeiliaid chwarae at arfer da o ran lechyd a Diogelwch, er enghraifft Chwarae Cymru: Making Health and Safety Child's Play and Play and Challenge.

Chwarae a'r Pandemig

Rhaid cydnabod, yn y cyfnod ers yr Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae blaenorol, y bu'r byd drwy bandemig Covid-19. Adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae nifer o gyfyngiadau'n dal ar waith ac mae'r pandemig wedi cyfyngu'r gallu i ymgysylltu gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd. Mae'r pandemig wedi effeithio ar ddarpariaeth chwarae ac ar sut mae plant a theuluoedd yn chwarae. Mae'n rhy gynnar i wybod beth fydd yr effaith parhaol, ond mae'r adran hon o'r adroddiad yn crynhoi beth mae pobl leol a rhanddeiliaid allweddol wedi'i ddweud wrthym.

Beth Ddywedodd Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd Wrthym

Helpodd ein harolygon ni i ddysgu am effaith COVID, a dangosodd y canlyniadau inni y:

- Dywedodd 23% o blant nad oedd COVID wedi effeithio ar eu gallu i chwarae a mwynhau cwmni ffrindiau, a dywedodd 35% y cafodd beth effaith.
- Dywedodd 38% o bobl ifanc fod y pandemig wedi bod yn rhwystr i'w chwarae, a dywedodd 54% o bobl ifanc fod COVID-19 wedi effeithio ar sut maen nhw'n chwarae ac yn ymlacio.
- Dywedodd 28% o rieni a gofalmwr fod y pandemig wedi bod yn rhwystr i'w chwarae. Dywedodd 61% o rieni a gofalmwr eu bod yn rhoi mwy o werth ar chwarae oherwydd y pandemig. Fodd bynnag, dywedodd 64% fod eu plant a'u teuluoedd yn chwarae llai.

Ymhlith y pethau a ddywedodd rhieni a gofalmwr wrthym am effaith y pandemig mae:

"Doedd mynd i grwpiau a chwrdd â'r teulu a ffrindiau ddim yn digwydd. A ddaeth e ddim yn arferiad fel y gwnaeth gyda fy mhlentyn cyntaf."

"Mae gan fy ngŵr salwch hirdymor. Dydw ddim yn mynd i fentro gadael i'r plant fynd i glwb ieuencid. Rwy'n teimlo'n flin drostyn nhw, ond mae gormod o risg y gallan nhw ddod â Covid yn ôl. Rwy'n poeni digon amdany'n nhw'n mynd i'r ysgol."

"Mae ein tŷ ni wedi troi'n ganolfan chwarae meddal... o leiaf rwy'n gwybod ei fod yn lân."

"Wnaethon nhw ddim cymdeithasu am gymaint o amser; rwy'n credu eu bod wedi anghofio sut. Cymerodd fy mhlentyn ieuengaf gymaint mwy o amser i ymgartrefu yn y feithrinfa na'i chwaer. Yr unig beth alla i feddwl yw nad ydy hi'n gyfarwydd â bod gyda phlant eraill."

"Rwy'n deall pam fod rhaid cael trefn archebu oherwydd COVID ond mae bron yn amhosib cael lle. Mae'n anoddach cael lle ar gyfer chwarae adeiladu a chwalu nag archebu tocynnau ar gyfer Adele!"

Play and the Pandemic

Ymhlith y pethau a ddywedodd plant a phobl ifanc wrthym am effaith y pandemig mae:

“Wel, mae fy mam yn iawn ond mae rhai o famau fy ffrindiau yn casáu Covid a pheidiwch â gadael i rai ohonyn nhw ddod allan ac mae rhai ohonyn nhw’n cael Covid.”

“Aeth gwaith ysgol, am lawer gormod o amser, yn gyfan gwbl ar-lein ac roeddwn i’n treulio llawer o fy amser rhydd yn ceisio gweithio allan sut roedden i fod i wneud y gwaith a roddwyd imi, oedd yn fy ngyrru’n benwan.”

“Rhwystredig. Fe ddywedwyd wrthym y byddai’r clwb ieuencid yn ailagor, ac wedyn wnaeth e ddim. Doedd neb yn rhoi gwybod inni beth oedd yn digwydd.”

“Pan roedden ni yn y cyfnod clo doedden ni ddim yn cael mynd allan a chwrdd â phobl weithiau ac roedd yn ddiflas.”

“Welais i mo fy ffrindiau o gwbl nes inni fynd yn ôl i’r ysgol ac fe fwriodd hynny fy hyder yn wael iawn.”

Yr Effaith

Cafodd rhai gwasanaethau chwarae cymunedol fel grwpiau rhiant a phlentyn eu colli oherwydd COVID.

Wrth ymateb i’r pandemig mae Llywodraeth Cymru wedi darparu arian ychwanegol gan gynnwys Haf o Hwyl a Gaeaf Llawn Lles. Defnyddiwyd yr arian hwnnw i ddatblygu darpariaeth chwarae o bob math sy’n ymateb i’r angen yn y gymuned, ond ar hyn o bryd nid oes unrhyw ffordd o gynnal y ddarpariaeth honno unwaith y daw’r arian hwnnw i ben.

Mae Covid hefyd wedi newid sut rydym yn gallu ymgysylltu â phlant, pobl ifanc a theluoedd ond mae wedi effeithio hefyd ar gymryd rhan yn y broses hon. Mae hefyd wedi newid sut rydym yn gweithio gyda’n partneriaid ac wedi creu rhwystrau sydd wedi cyfyngu ar ein gallu i gyflawni ein holl ddyheadau yn asesiad 2019 – 2022.

Dadansoddiad Bylchau

Yn dilyn y broses asesu, rydym wedi adnabod y bylchau canlynol yn y ddarpariaeth, y gellir eu crynhoi fel a ganlyn:

- Bylchau Daearyddol – Pan mae prinder darpariaeth gyffredinol mewn ardal ddaearyddol arbennig
- Bylchau Anghenion Amrywiol – Pan mae prinder lleoedd addas ar gyfer plant anabl, neu blant ag anghenion neu ofynion penodol eraill, gan gynnwys rhai o grwpiau ffydd neu gymunedau
- Bylchau Mynediad – Pan mae prinder darpariaeth chwarae hygyrch
- Bylchau Oed - Pan mae prinder darpariaeth chwarae sy'n addas ar gyfer anghenion a gofynion grŵp oed penodol (er enghraifft, plant oed ysgol i fyny at 18 oed, os ydynt yn anabl)
- Bylchau Math – Pan mae prinder y math o chwarae y gall fod yn galw amdano
- Bylchau yn y Gweithlu – Pan mae bylchau/prinderau yn y gweithlu
- Bylchau Polisi – Pa bolisïau i gefnogi a datblygu chwarae sydd ar goll
- Bwlch COVID 19 – Bylchau yn y ddarpariaeth yn gysylltiedig â'r pandemig.

Gap Analysis

Tabl 3: Dadansoddiad Bylchau Cryno

Math o Fwlch	Bylchau a Nodwyd yn y Ddarpariaeth
Daearyddol	<ul style="list-style-type: none"> • Nid oes digon o ddarpariaeth mewn ardaloedd gwledig, yn rhannol oherwydd bod y ddarpariaeth yn ymateb i angen fel y'i diffiniwyd gan boblogaeth ac amddifadedd. • Nid oes gan 9 ward leoedd chwarae dynodedig awyr agored: Gogledd Tref Caerfyrddin, De Tref Caerfyrddin, Cynwyl Gaeo, Hengoed, Llanboidy, Llanfihangel Aberbythych, Llangeler, Maenordeilo a Salem a Thre-lech. • Nid oes gan 25 ward unrhyw ddarpariaeth chwarae wedi'i goruchwyllo: Abergwili, Bigyn, Bynea, Cil-y-cwm, Cynwyl Elfed, Cynwyl Gaeo, Dafen, Elli, Gors-las, Hengoed, Talacharn, Llanboidy, Llanddarog, Llandeilo, Llanymddyfri, Llanfihangel Aberbythych, Llangadog, Llangyndeyrn, Llannon, Llansteffan, Pontaman, Saron, Llanismel, Trimsaran a Hendy-gwyn ar Daf. Sylwer fod y wybodaeth hon yn seiliedig ar ddarpariaeth chwarae a restrir ar Dewis. • Nid oes gan 16 ward unrhyw ddarpariaeth chwarae ar gyfer plant a phobl ifanc hŷn (darpariaeth dan do neu awyr agored ar gyfer 12+) Bigyn, Gogledd Tref Caerfyrddin, Cynwyl Gaeo, Dafen, y Glyn, Hengoed, Talacharn, Llanboidy, Llandeilo, Llanfihangel Aberbythych, Llangadog, Maenordeilo a Salem, Pontyberem, Llanismel, Tre-lech a Thrimaran. Yn seiliedig ar amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn ar gyfer 2021 mae 4,496 o blant a phobl ifanc rhwng 12 ac 19 oed yn byw yn y wardiau hyn, sef 30% o'r grŵp oed hwnnw.

Gap Analysis

Anghenion Amrywiol	<ul style="list-style-type: none"> • Mae darpariaeth chwarae wedi'i goruchwyllo ar gyfer plant a phobl ifanc ag anableddau yn dibynnu ar gyllid tymor byr ac mae'n bosib na fydd yn parhau unwaith ddaw'r arian hwn i ben. • Nid oes digon o ddarpariaeth mewn ardaloedd gwledig, yn rhannol oherwydd bod y ddarpariaeth yn ymateb i angen fel y'i diffiniwyd gan boblogaeth ac amddifadedd. • Mae darpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg ond mae canfyddiad fod llai o ddarpariaeth rad ac am ddim. Hefyd, byddai teuluoedd nad ydynt yn siarad Cymraeg yn hoffi cael mwy o gefnogaeth i ddod o hyd i gyfleoedd chwarae trwy gyfrwng y Gymraeg. • Nid yw anghenion chwarae gofalmwr ifanc a phlant mewn cymunedau teithwyr yn cael eu deall yn llawn. • Mae pobl ifanc LHDTC angen darpariaeth sydd ar eu cyfer nhw lle y gallan nhw deimlo'n ddiogel. Nid oes gan y Gwasanaethau Ieuenctid y capasiti na'r adnoddau i ddiwallu'r angen hwn ac ail-gychwyn cyfarfodydd wyneb yn wyneb ar gyfer eu grŵp LHDTC.
Mynediad	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r ymgysylltu â phlant, pobl ifanc a theuluoedd yn dangos canfyddiad fod angen bod yn berchen ar gar er mwyn gallu manteisio ar gyfleoedd chwarae. • Mae pryderon traffig yn rhwystr wrth geisio manteisio ar gyfleoedd chwarae. • Nid yw penderfyniadau ar y ffactorau sy'n berthnasol i fynediad yn rhoi ystyriaeth i chwarae. • Ceir lefel isel o ymwybyddiaeth o'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd (FIS) a Dewis. • Nid yw teuluoedd yn ymwybodol o ddigwyddiadau, gweithgareddau a chyfleoedd chwarae yn eu hardal leol. • Nid yw plant a phobl ifanc yn credu fod digon iddyn nhw ei wneud yn eu hardal leol.

Gap Analysis

Oed	<ul style="list-style-type: none"> Mae diffyg darpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc dros 11 oed. Mae 35% o barciau a mannau agored yn darparu ar gyfer y grŵp oed hwn. Ar y llaw arall, mae 87% yn gwasanaethu plant 4 i 11 oed. Fel y nodwyd ynghynt, nid oes gan 17 ward unrhyw ddarpariaeth ar gyfer plant hŷn a phobl ifanc (darpariaeth dan do neu awyr agored ar gyfer plant a phobl ifanc 12+) Bigyn, Gogledd Tref Caerfyrddin, Cynwyl Gaeo, Dafen, y Glyn, Hengoed, Talacharn, Llanboidy, Llandeilo, Llanfihangel Aberbythych, Llangadog, Maenordeilo a Salem, Pontyberem, Llanismel, Tre-lech a Thrimaran. Yn seiliedig ar amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn ar gyfer 2021 mae 4,496 o blant a phobl ifanc rhwng 12 a 19 oed yn byw yn y wardiau hyn, sef 30% o'r grŵp oed hwnnw. Ymgysylltu â phlant hŷn a phobl ifanc i ddeall pa ddarpariaeth chwarae a hamdden maen nhw eisiau.
Math	<p>Mae'r ymgysylltu gyda rhieni a gofalwyr yn awgrymu fod angen datblygu darpariaeth o'r math canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Gofal Plant Tu Allan i Oriau Ysgol Clybiau Ieuentid Darpariaeth chwarae wedi'i goruchwyllo ar gyfer plant ag anabledau ac anghenion arbennig. Darpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg rad ac am ddim.
Gweithlu	<ul style="list-style-type: none"> Nid oes archwiliad cynhwysfawr o'r gweithlu chwarae ar gael. Mae darparwyr gofal plant, ysgolion a gwasanaethau ieuentid yn rhannau allweddol o'r gweithlu chwarae ond nid ydynt yn ystyried eu hunain felly. Cefnogaeth a hyfforddiant i wirfoddolwyr. Ymgysylltu gydag ysgolion Nid yw'r heriau o ran denu a chadw staff yn cael sylw digonol. Nid yw agwedd Llywodraeth Cymru at gyllido yn cefnogi buddsoddi yn y gweithlu chwarae.
Polisi	<ul style="list-style-type: none"> Nid yw chwarae yn cael ei wreiddio mewn polisiau allweddol ac nid yw felly'n cael ei ystyried yn y penderfyniadau ehangach.
COVID-19	<ul style="list-style-type: none"> Mae cyllid yn gysylltiedig â COVID wedi rhoi sylw i fylchau yn y ddarpariaeth, ond nid yw'r cynnig hwn yn gynaliadwy.

Casgliad

Mae'n bwysig cydnabod fod rôl a chapasiti'r Cyngor o ran chwarae wedi cael eu lleihau ers yr Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae cyntaf yn 2013. Rydym yn parhau i fod ymrwymedig i sicrhau y gall pob plentyn, person ifanc a theuluoedd fanteisio ar gyfleoedd chwarae, ond mae'n bwysig ystyried y realiti economaidd a'n dibyniaeth gynyddol ar bartneriaid gan gynnwys Cyngorau Tref a Chymuned, y Trydydd Sector ac ysgolion er mwyn darparu cyfleoedd chwarae, Yn ogystal â diwallu anghenion chwarae plant a phobl ifanc bydd angen inni weithio gyda phobl leol a'u cefnogi i wneud y gwahaniaeth maen nhw eisiau ei weld.

Mae proses yr Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae wedi amlygu ystod o ddarpariaeth chwarae wych sy'n llesol i'r plant a phobl ifanc sy'n byw yn Sir Gaerfyrddin. Rydym yn parhau i gydweithio gyda phartner sefydliadau wrth inni anelu at gwrdd â gofynion meini prawf yr Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae. Fodd bynnag, ni allwn wneud popeth, a theimlwn ei bod yn bwysig i lunio cynllun cyflawnadwy sy'n blaenoriaethu newid ystyrion y gallwn ei gyflawni. Yn seiliedig ar ein hymgysylltu gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd a chanfyddiadau'r asesiad, bydd y camau a fwriadwn ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2022 – 31 Mawrth 2023 yn canolbwyntio ar y themâu canlynol:

- Defnyddio data wrth wneud penderfyniadau yn seiliedig ar angen.
- Cefnogi Cyngorau Tref a Chymuned i ddeall a mynd i'r afael ag anghenion chwarae yn eu cymuned.
- Grymuso pobl leol i ddatblygu a darparu'r chwarae sydd ei angen ar eu cymuned.
- Ymgysylltu â phobl ifanc i ddeall pa

ddarpariaeth chwarae a hamdden maen nhw eu heisiau.

- Rhoi sylw i fylchau yn y ddarpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc ag anabledau ac anghenion ychwanegol.
- Sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau o arian i wella ansawdd a rhoi sylw i fylchau.
- Galluogi teuluoedd i ddod i wybod yn rhwydd pa ddarpariaeth chwarae sydd ar gael iddynt.
- Dathlu a hyfforddi ein gweithlu chwarae, gan gynnwys gwirfoddolwyr.
- Gwreiddio gwerth chwarae mewn polisïau a strategaethau sy'n dylanwadu ar benderfyniadau.

Ffordd Ymlaen

Mae'r Cynllun Gweithredu Digonolrwydd Chwarae 2022/23 yn seiliedig ar ganfyddiadau'r broses asesu. Cafodd blaenoriaethau a chymau eu hadnabod gan y Grŵp Rhanddeiliaid Digonolrwydd Chwarae ac fe'u cytunwyd gan y grŵp a'u cadarnhau trwy broses wleidyddol yr Awdurdod Lleol.


O ran y cyllid i greu newid, bydd yr Awdurdod Lleol a phartneriaid yn cydweithio wrth gael a buddsoddi arian ar gyfer chwarae, megis er enghraifft arian o Adran 106 a Llywodraeth Cymru. Dangosodd yr asesiad hwn fod angen gweithio'n agosach gydag ysgolion, Cynghorau Tref a Chymuned a phobl leol i ddarparu cyfleoedd chwarae, gan gynnwys dewisiadau cost isel a rhad ac am ddim.

Bydd y Grŵp Rhanddeiliaid Digonolrwydd Chwarae yn cyfarfod yn dymhorol. Bydd y grŵp hwn yn cymryd cyfrifoldeb am gyflawni'r cynllun gweithredu a monitro cynnydd. Byddant yn adolygu a diweddarau'r cynllun gweithredu trwy gydol oes y cyfnod asesu hwn 2022 - 2025.

Cyfeiriadau


- 1 Accessing the Therapeutic Powers of Play A Guide for Play Workers, Chwarae Cymru (Maggie Fearn, Mai 2021)
- 2 Promoting Physical Activity Through Outdoor Play in Early Years Settings, Chwarae Cymru (Chwarae Cymru Tachwedd 2020)
- 3 Play: Health and Well-Being (Chwarae Cymru, Mai 2020)
- 4 The Mental health Emergency (Mind Cymru, Mehefin 2020)
- 5 Children's Mental Health Matters (Right to Play – casglwyd 18 Chwefror 2022)
- 6 How Play Levels the Playing Field (Learning Through Play – casglwyd 18 Chwefror 2022)
- 7 Learning Through Play Represents the Best Long-term Value for Helping Kids, Regardless of Background (World Economic Forum – casglwyd 18 Chwefror 2022)
- 8 Investing in Child's Play Makes Economic Sense (World Economic Forum – casglwyd 18 Chwefror 2022)
- 9 To Lockdown and Back (Day, Percy-Smith, Rizzo, Erskine, Monchuk a Shah Tachwedd 2020)
- 10 COVID-19 and Children's Play, Play Safety Forum (casglwyd 18 Chwefror 2022)
- 11 Play: Health and Well-Being (Chwarae Cymru, Mai 2020)
- 12 Population Estimates from the UK, England, Wales, Scotland and Northern Ireland (casglwyd 19 Chwefror 2022)
- 13 Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019: Dadansoddiad Amddifadedd o ran Plant Ifanc (casglwyd 19 Chwefror 2022)
- 14 Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Sir Gaerfyrddin (CDLI) 2018 – 2033: Asesiad Mannau Agored (Ionawr 2020)
- 15 Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Sir Gaerfyrddin (CDLI) 2018 – 2033: Asesiad Mannau Agored (Ionawr 2020)
- 16 Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Sir Gaerfyrddin (CDLI) 2018 – 2033: Asesiad Mannau Agored (Ionawr 2020)
- 17 Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Sir Gaerfyrddin (CDLI) 2018 – 2033: Asesiad Mannau Agored (Ionawr 2020)
- 18 Chwarae Cymru Creating Accessible Play Spaces Toolkit (Chwarae Cymru, Tachwedd 2017)
- 19 Ffurflen Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae
- 20 Gwefan Diogelwch Ffyrdd (casglwyd 19 Chwefror 2022)
- 21 Strategaeth Feicio Sir Gaerfyrddin: Canolbwynt Beicio Cymru (Ionawr 2018)
- 22 Access to walking and cycling (Active Travel) (casglwyd 19 Chwefror 2022)
- 23 Ffurflen Asesu Digionolrwydd Cyfleoedd Chwarae
- 24 Participation and children's rights (casglwyd 19 Chwefror 2022)
- 25 Gorolwg o Droseddu yng Nghaerfyrddin (casglwyd 2 Chwefror 2022)
- 26 Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 (casglwyd 19 Chwefror 2022)

ATODIAD A




Ffigur 1: Oed Yn Ôl Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA)

ATODIAD B



Ffigur 2: Niferoedd yn Derbyn Prydau Ysgol Rhad ac am Ddim Fesul Ysgol

ATODIAD C



Ffigur 3: WIMD 2019 Yn Ôl Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA)

ATODIAD D

O ran Mater A amlygodd dadansoddiad SOAR y canlynol:

Cryfderau	Cyfleoedd	Dyheadau	Canlyniadau
Mater A: Poblogaeth			
Alinio lleoliad darpariaeth chwarae gyda dwysedd poblogaeth ac amddifadedd. Cafodd ystod o ddata perthnasol ei fapio i alluogi penderfyniadau gwybodus ar lefel y Sir, Ward ac LSOA. Mae data PLASC yn cefnogi dealltwriaeth o fyfyrwyr a'u hanghenion.	Bydd yr Asesiad Llesiant yn darparu gwybodaeth ar faterion sy'n wynebu plant, pobl ifanc a theuluoedd. Mae angen cydweithio i lenwi bylchau data, yn enwedig felly o ran grwpiau anaml y'u clywir gan gynnwys plant ag anableddau a phlant nad y Gymraeg / Saesneg yw eu mamiaith.	Gwneud penderfyniadau yn seiliedig ar angen. Rhannu data a gwybodaeth gyda phartneriaid a rhanddeiliaid.	Mae'r ddarpariaeth chwarae yn diwallu anghenion cymunedau yn fwy effeithiol ar lefel sirol a lleol.

ATODIAD F

O ran Mater B amlygodd dadansoddiad SOAR y canlynol:

Cryfderau	Cyfleoedd	Dyheadau	Canlyniadau
Mater B: Diwallu Anghenion Amrywiol			
<p>Ystod o ddarpariaeth a gweithgareddau chwarae trwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd asesiadau o leoedd chwarae wedi adnabod ym mha barciau y mae problemau mynediad ac offer hygyrch. Buddsoddi mewn offer chwarae gosod ar gyfer plant ag anableddau. Defnyddio cyllid Haf o Hwyl a Gaeaf Llawn Lles. Gwell dealltwriaeth o'r anghenion sy'n deillio o ddiwygiadau ADY.</p>	<p>Cefnogi rhieni nad ydynt yn siarad Cymraeg i ymgysylltu ag a dysgu gan chwarae cyfrwng Cymraeg. Ailgyssylltu cymunedau gyda mannau agored y gallant chwarae ynddynt, gan gynnwys mannau gwyrdd a choetir. Datblygu maen prawf ar gyfer cyllid sy'n targedu ac adlewyrchu anghenion grwpiau a chanddynt anghenion amrywiol. Darpariaeth chwarae wedi'i goruchwyllo gynaliadwy ar gyfer plant a phobl ifanc ag anableddau. Rhannu gwybodaeth a chanfyddiadau ymgysylltu gyda phartneriaid.</p>	<p>Grymuso cymunedau gwledig i ddatblygu darpariaeth chwarae sy'n cwrdd â'u hanghenion. Dysgu o brosiectau llwyddiannus mewn cymunedau gwledig megis Clwb Bach. Cysylltu â rhieni Saesneg eu hiaith sydd eisiau dysgu Cymraeg i'w cefnogi. Hyrwyddo darpariaeth chwarae cyfrwng Cymraeg rad ac am ddim. Dod o hyd i ffordd o ymgysylltu gyda chymunedau teithwyr. Cydweithio gyda gofalwyr ifanc i ddeall eu hanghenion chwarae. Cefnogi capasiti ychwanegol i alluogi grŵp LHBTC y gwasanaeth ieuenctid i ailgychwyn cyfarfodydd wyneb yn wyneb.</p>	<p>Mwy o blant a phobl ifanc yn chwarae mewn mannau agored. Mwy o rieni Saesneg eu hiaith yn cymryd rhan mewn chwarae cyfrwng Cymraeg. Mae gan rieni a gofalwyr well ymwybyddiaeth o'r ddarpariaeth sydd ar gael iddyn nhw. Mae gan fwy o ofalwyr ifanc amser yn eu bywydau i chwarae. Mae cyllid yn ymateb i angen. Grymuso grwpiau amrywiol i wneud y newidiadau maen nhw eu hangen.</p>

ATODIAD G

O ran Mater C amlygodd dadansoddiad SOAR y canlynol:

Cryfderau	Cyfleoedd	Dyheadau	Canlyniadau
Mater C: Y lle sydd ar gael i blant chwarae			
<p>Lefel uchel o ddarpariaeth o fannau cyhoeddus agored ar draws y Sir. Prosiect i roi sylw i'r diffyg darpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc anabl.</p> <p>Asesiad Mannau Cyhoeddus. Seilwaith Gwyrdd a Glas Pecyn Creu Lleoedd Chwarae Chwareus.</p>	<p>Rhoi sylw i brinderau daearyddol mewn partneriaeth â Chynghorau Tref a Chymuned perthnasol. Cysylltu plant, pobl ifanc a theuluoedd gyda mannau agored sy'n addas ar gyfer chwarae. Targedu'r arian buddsoddi sydd ar gael.</p>	<p>Cynnal y ddarpariaeth chwarae bresennol. Defnyddio'r cyllid i roi sylw i brinder darpariaeth ar gyfer plant hŷn a phobl ifanc.</p> <p>Annog Cynghorau Tref a Chymuned i ddefnyddio Pecynnau Chwarae Cymru i asesu eu darpariaeth chwarae. Cynnwys plant, pobl ifanc a theuluoedd mewn penderfyniadau am chwarae.</p>	<p>Mae Cynghorau Tref a Chymuned yn cael eu cefnogi i gynnal, gwella a datblygu eu lleoedd chwarae awyr agored. Mae plant, pobl ifanc a theuluoedd yn deall pa fannau agored sydd ar gael ar gyfer chwarae. Mae plant, pobl ifanc a theuluoedd yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau am chwarae. Pan mae arian ar gael i'w fuddsoddi mewn mannau agored mae'n ymateb i angen.</p>

ATODIAD H

O ran Mater D amlygodd dadansoddiad SOAR y canlynol:

Cryfderau	Cyfleoedd	Dyheadau	Canlyniadau
Mater D: Darparu cyfleoedd dan oruchwyliaeth			
Mae darpariaeth amrywiol ar gael ar draws y Sir.	Datblygu ansawdd darpariaeth chwarae wedi'i goruchwyllo. Rhoi sylw i brinderau ar gyfer grwpiau ag anghenion amrywiol (gweler Mater B)	Creu rhaglen sicrhau ansawdd. Cefnogi lleoliadau i ddarparu amgylcheddau chwarae cyfoethog o ansawdd uchel. Dysgu o brosiectau Haf o Hwyl a Gaeaf Llawn Lles llwyddiannus.	Gwella ansawdd darpariaeth chwarae wedi'i goruchwyllo. Defnyddir cyllid yn strategol i roi sylw i brinderau yn y ddarpariaeth. Caiff prosiectau llwyddiannus eu cynnal a'u parhau.

ATODIAD I

O ran Mater E amlygodd dadansoddiad SOAR y canlynol:

Cryfderau	Cyfleoedd	Dyheadau	Canlyniadau
Mater E: Taliadau ar gyfer darpariaeth chwarae			
Cefnogir darpariaeth chwarae rad ac am ddim trwy gyllid a buddsoddiadau. Mae gwybodaeth ddemograffig ar gael er mwyn deall amddifadedd, gwledigrwydd ac anghenion anabled.	Sicrhau bod teuluoedd yn ymwybodol o'r cyfleoedd chwarae am ddim a chost isel yn eu cymuned. Cefnogi cymunedau i ddod o hyd i arian ar gyfer chwarae.	Defnyddir arian tymor byr yn fan cychwyn ar gyfer darpariaeth chwarae am ddim neu gost isel gynaliadwy.	Mae teuluoedd yn gwybod pa gyfleoedd chwarae am ddim / cost isel y gallant fanteisio arnynt. Mae darpariaeth chwarae cost isel ac am ddim yn dod yn fwy cynaliadwy.

ATODIAD J

O ran Mater F amlygodd dadansoddiad SOAR y canlynol:

Cryfderau	Cyfleoedd	Dyheadau	Canlyniadau
Mater F: Mynediad i le/darpariaeth			
Cynrychiolaeth o'r Tîm Diogelwch Ffyrdd ar y Grŵp Rhanddeiliaid Digonolrwydd Chwarae, y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd (GGT) a Dewis. Arbenigedd yn y tîm GGT. Defnyddio cyfryngau cymdeithasol.	Ymgynghori ar y Strategaeth Teithio Llesol. Hyrwyddo manteision bod ar y GGT a Dewis i ddarparwyr a lleoliadau. Mae gwaith Integreiddio Blynnyddoedd Cynnar yn edrych ar sut i wella cynnig y GGT er mwyn sicrhau y gall teuluoedd gael gafael ar y wybodaeth maen nhw ei hangen.	Sicrhau bod chwarae yn cael ei ystyried wrth ddatblygu'r Strategaeth Teithio Llesol. Mae gwybodaeth gyfredol am yr holl ddarpariaeth chwarae ar gael ar y GGT.	Mae Teithio Llesol yn gwella gallu teuluoedd i fanteisio ar gyfleoedd chwarae yn ddiogel. Mae'n rhwydd i deuluoedd gael gafael ar wybodaeth am gyfleoedd a digwyddiadau.

ATODIAD K

O ran Mater G amlygodd dadansoddiad SOAR y canlynol:

Cryfderau	Cyfleoedd	Dyheadau	Canlyniadau
Mater G: Sicrhau a Datblygu'r gweithlu chwarae			
Mae arian ar gael i gefnogi hyfforddiant a datblygiad proffesiynol. Gweithlu chwarae diwyd a phroffesiynol. Canfyddiadau'r Asesiad Digonolrwydd Chwarae.	Gweithio gyda'r GGT a'r Timau Gofal Plant i gynnal archwiliad staff gofal plant a chwarae. Trafod effaith cyllid tymor byr gyda Llywodraeth Cymru. Gwybodaeth hwylus ar yrfaoedd chwarae gan gynnwys gwybodaeth am gymwysterau a rhestri swyddi. Dysgu o waith arall gan gynnwys yr Asesiad Digonolrwydd Chwarae a Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin (WESP).	Gweithlu chwarae medrus, ymgysylltiedig sydd wedi'i hyfforddi'n dda. Defnyddio cyllid i wella sgiliau'r gweithlu chwarae a buddsoddi ynddo. Rhaglen hyfforddi gwirfoddolwyr.	Gwella denu a chadw staff. Gweithlu chwarae sy'n darparu ar gyfer teuluoedd. Mae gwirfoddolwyr yn cael eu cefnogi a'u grymuso i ddarparu cyfleoedd chwarae yn eu cymunedau.

ATODIAD L

O ran Mater H amlygodd dadansoddiad SOAR y canlynol:

Cryfderau	Cyfleoedd	Dyheadau	Canlyniadau
Mater H: Ymgysylltu â'r gymuned a chymryd rhan ynddi.			
Ymrwymiad yr Awdurdod Lleol i gyfranogiad a hawliau plant.	Adolygu ac ehangu aelodaeth y Grŵp Rhanddeiliaid Digonolrwydd Chwarae. Gweithio gyda Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Sir Gaerfyrddin er mwyn rhoi sylw i bryderon a amlygwyd gan y PSA.	Creu pecyn gwaith ar gyfer ymgysylltu â chymunedau am chwarae y gellir ei ddefnyddio gan bartneriaid.	Mae plant, pobl ifanc a theuluoedd yn cael gwrandawriad ac yn cyfrannu at benderfyniadau ar chwarae. Mae'r gymuned yn deall pam a sut mae penderfyniadau am chwarae yn cael eu gwneud. Mae plant, pobl ifanc a theuluoedd yn teimlo'n ddiogel yn ein parciau.

ATODIAD M

O ran Mater I amlygodd dadansoddiad SOAR y canlynol:

Cryfderau	Cyfleoedd	Dyheadau	Canlyniadau
Mater I: Chwarae yn unol â phob polisi perthnasol ac agenda weithredu			
Strategaeth GBI Strategaeth Ysgolion Cymunedol	Cyfrannu at ymgynoriadau wrth i strategaethau a pholisïau allweddol gael eu datblygu. Dysgu o agweddau newydd at fynediad i ysgolion megis y drefn yn Ysgol Gorslas.	Y Grŵp Rhanddeiliaid Digonolrwydd Chwarae yn cyfrannu at ymgynghoriadau ar yr holl strategaethau a pholisïau perthnasol. Cyfrannu at ddatblygu strategaeth ysgolion cymunedol.	Gwreiddio chwarae mewn dogfennau strategaeth a pholisi allweddol.